**Adroddiad Interim Cam 1 Mai 2002 (Drafft)**



# Llyfrgell Genedlaethol Cymru - Arolwg Pum Mlynedd

## Adroddiad Interim Cam 1 (Drafft)

**Cynnwys**

**Cydnabyddiaeth**

**Crynodeb ac Argymhellion**

1. **Cyflwyniad**

2. **Cefndir**

3. **Cymhariaeth gyda Sefydliadau Eraill**

4. **Ymgynghoriad - Casgliadau interim**

5. **Ffurf Cyllido**

**Sut mae'r Llyfrgell yn cael ei chyllido ar hyn o bryd**

**Rhagolygon Cyllido**

**Materion a Dewisiadau Cyllido**

**6. Darpariaethau a Dewisiadau ar gyfer Newid**

**Atodiadau**

**1. Cymaryddion y Llyfrgell Genedlaethol**

2. **Y llythyr eglurhaol a'r Holiadur a ddefnyddiwyd yn yr Ymgynghoriad**

3. **Cymariaethau Ehangach Llyfrgelloedd**
4. **Cymhariaeth nifer o aelodau Byrddau / aelodau'r Cynghorau / Ymddiriedolwyr**
5. **Termau Cyfeiriadol**

## CYDNABYDDIAETH

Hoffem ddiolch i Lywydd ac aelodau Cyngor y Llyfrgell Genedlaethol (y Llyfrgell), Y Llyfrgellydd a'i Dîm o Uwch Reolwyr, a holl weithwyr y llyfrgell am y cymorth diflino maen nhw wedi ei roi yn ystod rhan gyntaf cynnal yr ymchwiliad hwn. Cynhaliwyd hyn yn fuan wedi gweithredu strwythur newydd ac yn erbyn cefndir o waith adeiladu mewn darpariaeth ar gyfer y Profiad i Ymwelwyr newydd. Roedd pawb yn fodlon bod yn agored iawn ac rydyn ni wedi siarad â nifer helaeth o reolwyr a staff sydd yn cymryd cryn falchder yn eu gwaith.

Rydyn ni hefyd am ddiolch i'r budd-ddeiliaid, y partneriaid a'r sefydliadau eraill sydd â diddordeb am eu hymrwymiad i'r broses ymgynghori a'r help a'r ddealltwriaeth gynigiwyd ganddyn nhw. Yn olaf rydyn ni am ddiolch i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'i swyddogion am eu cymorth a'u cefnogaeth yn ystod cam cyntaf yr adolygiad.

## Crynodeb

1. Mae'r crynodeb hwn yn cwmpasu Cam 1 o arolwg pum mlynedd Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Bydd yr ail gam yn mynd ymlaen i drafod effeithiolrwydd strategol, cyfraniad effeithiol y Llyfrgell i'r blaenoriaethau a gyflwynir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a materion llywodraethol corfforaethol. Mae'r cwestiynau ar gyfer y cyfnod hwn wedi eu hamlinellu yn y cyflwyniad. Rydyn ni'n nodi isod ganfyddiadau allweddol y cam hwn yn yr arolwg:

**A oes angen y swyddogaethau a gynhelir gan y Llyfrgell ac am ba hþd? Ydyn nhw'n dal yn angenrheidiol?**

2. Rydyn ni wedi dod i'r penderfyniad fod angen parhaol am yr holl wasanaethau a gynhelir gan y Llyfrgell a bod y crynhoi gwasanaethau yn cynrychioli modd gwerthfawr i dynnu at ei gilydd ddefnyddiau arwyddocaol yn natblygiad celfyddydol Cymru. Mae nifer o ddatblygiadau diweddar megis y wefan a digideiddio nid yn unig yn cynrychioli gwasanaethau ymestyn allan a gynigir ond hefyd yn asio'n glos gyda thueddiadau'r dyfodol i ddarparu mynediad i wybodaeth yn gyffredinol.

**Beth yw'r fframwaith cyfreithiol sydd yn rheoli'r Llyfrgell?**

3. Caiff hyn ei ddisgrifio'n llawn yn rhan 2. Mae'r Llyfrgell yn Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, ac mae iddi fodolaeth gyfreithiol, ar wahân, o dan Siarter Frenhinol 1907. Mae hefyd yn elusen gofrestredig, yn dod o dan reolaeth y Comisiwn Elusennau, yn ogystal â bod yn llyfrgell adnau cyfreithiol ar Ynysoedd Prydain. Yn olaf mae wedi ei rhwymo'n gyfreithiol trwy gontract i'r Cynulliad trwy Ddatganiad Rheolaeth a Memorandwm Ariannol, sy'n gosod cyfundrefn ymddiriedol a rheolaeth yn debyg eu bâth i gyrff gaiff eu rheoli'n uniongyrchol gan y Cynulliad. Mae 90% o'i gyllido yn dod o Wariant -mewn-Grantiau y pleidleisiwyd arno gan y Cynulliad.

**A oes raid i'r swyddogaethau gael eu gweithredu gan CCNC - a ydyw'n debygol fod opsiynau eraill yn fwy effeithiol? A fyddent yn cael eu gweithredu'n well gan**

**gorff sengl?**

4. Mae’r adroddiad yn casglu ei bod yn annhebygol y gall lefelau arwyddocaol o gostau rhedeg gweithgareddau’r Llyfrgell gael eu i symud i ffwrdd oddi wrth ariannu cyhoeddus. Er hynny, efallai y byddai manteision ar gyfer codi arian mewn symud arian i gostau cynnal oddi wrth grant prynu a chyfalaf.

5. Caiff cyllido defnyddwyr gwasanaethau yn hytrach na’r darparwyr ei wrthod fel syniad anymarferol. Byddai hyn yn gofyn i’r Llyfrgell mewn ffordd i ‘fasnachu’ gyda deiliaid cyllid. Does dim dadleuon economaidd cryf dros wahanu’r gwasanaethau a ddarperir a chyllido darparwyr niferus. Byddai hyn yn rhwystro’r angen am groes-reolaeth glos dros wasanaethau ac yn mynd i gryn gostau wrth symud i ffwrdd oddi wrth ddarparwr sengl cydnabyddedig wedi ei gefnogi gan fuddsoddiad hanesyddol.

6. Gwelwyd fod symud swyddogaethau i’r Cynulliad yn cynnig fawr ddim gwelliant mewn rheoli fyddai’n digolledu am golli statws elusennol, sy’n cynnig manteision treth a photensial uwch i ddenu rhoddion, cymynroddion a grantiau. Mae cefnogaeth gref ymhlith atebwyr i’r egwyddor hyd-braich ac mae dadleuon i gefnogi’r syniad fod hyn yn darparu gwell llwyfan ar gyfer partneriaethau sy’n tyfu.

7. Mae’r adroddiad yn dod i’r casgliad mai corff unigol CCNC yw’r dewis gorau sydd ar gael i’r Cynulliad.

**A oes angen rhesymoli swyddogaethau rhwng y Llyfrgell â chyrff cyhoeddus eraill sy’n darparu gwasanaethau tebyg yng Nghymru?**

8. Mae’r adroddiad yn adolygu’r cyfleon yn enwedig rhwng y Llyfrgell a’r Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru a’r Cynulliad ei hun. Daw i’r penderfyniad nad yw’r casgliadau sy’n gorgyffwrdd gyda AOCC yn arwyddocaol (a’u bod yn cael eu rheoli’n llwyddiannus rhwng y sefydliadau) a bod sgiliau craidd rhedeg y ddau sefydliad yn wahanol, ond mae’n gweld cyfle i’r ddau sefydliad i weithio gyda’i gilydd er mwyn gwneud y gorau o’u casgliadau trwy ymestyn allan, hyrwyddo a gweithgareddau marchnata - efallai trwy rôl uwch gaiff ei rhannu. Nid yw’r un buddiannau yn debygol o fod yn wir o Cadw, gan nad oes ganddyn nhw gasgliadau symudol nac adeiladau fel amgueddfa wedi eu gwarchod.

9. Gyda dau safle yng Ngogledd Cymru, un yn y Canolbarth a chwech yn Ne Cymru (yn cynnwys Pwll Mawr) mae gan yr Amgueddfa safleoedd sy’n fwy yn ddaearyddol na’r Llyfrgell. Ond mae gan y Llyfrgell sail mewn technoleg a ellir ei ddefnyddio i wella ac i hybu arddangosfeydd sefydlog a theithiol oddi fewn i Gymru a’r tu allan. Felly mae’n bosib y gall ehangder daearyddol yr Amgueddfa gyfrannu tuag at waith ymestyn allan y Llyfrgell, ac y gall galluoedd technegol y Llyfrgell gyfrannu tuag at wella gweithgareddau’r Amgueddfa a’i photensial i ymestyn allan.

10. Mae gweithrediadau archifo Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru wedi ei leoli yn Aberystwyth. Mae’r adroddiad yn dod i’r casgliad fod, ar yr olwg gyntaf, achos dros gyfuno’r archif â’r ddarpariaeth catalogio a gwasanaethau ddarllenwyr â’r Llyfrgell ac y dylai arolwg pum mlynedd y Comisiwn, sydd yn ei ddyddiau cynnar ar hyn o bryd, ymchwilio i’r mater hwn yn ofalus.

11. Yn nhermau’r Cynulliad mae’r adroddiad yn argymell efallai fod rhywfaint o dir cyffredin rhwng llyfrgell y Cynulliad ei hun â’r Llyfrgell Genedlaethol ac yn awgrymu profi’r gwasanaethau archif dros dymor hirach yn erbyn darpariaeth gan y llyfrgell a chydweithio ar archifo darllediadau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hefyd yn gwahodd y Cynulliad i weld, yn absenoldeb swyddfa cofnodion cyhoeddus, a oes rôl mewn gofynion archifo tymor-hirach y byddai’r Llyfrgell yn gymwys i’w llenwi.

12. Mae’r adroddiad yn mynd yn ei flaen i archwilio rhai materion a allai fod o bwysigrwydd strategol:

    - **A yw strwythur Rheolaeth y Llyfrgell yn ateb ei dibenion yn y ffordd orau?**
    - **A oes angen i’r strwythur fod yn fwy tryloyw?**

**Strwythur y Rheolaeth**

13. Mae'r adroddiad wedi dod i'r casgliad nad yw'r strwythur presennol yn cyd-fynd ag arfer da ac nid yw'n gwasanaethu buddiannau'r Llyfrgell. Mae'n darganfod bod strwythurau byrddau ymddiriedolwyr a fabwysiadwyd gan y rhan fwyaf o sefydliadau tebyg â mwy i'w gynnig mewn effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd, er gwaetha'r ffaith gydnabyddedig bod aelodau'r Cyngor yn hael wrth roi o'u hamser heb dâl. Mae hefyd yn dod i'r casgliad fod y broses o greu'r strwythur yn ddiweddar wedi datblygu i fod yn ddigon tryloyw i ateb arfer da, fel y'i diffinnir o dan egwyddorion Pwyllgor Nolan, er ein bod yn dadlau nad yw'r trefniadau i ddewis aelodau'r Cyngor o blith aelodau'r Llys efallai yn cadw at ysbryd a naws yr egwyddorion hynny.

14. Argymhellir bod y Llyfrgell yn ymgynghori â'r Cynulliad yngln â'r ffordd orau i ffurfio grp llai, mwy tynn, anweithredol gyda'r bwriad o drafod busnes yn fwy effeithiol a heb golli statws elusennol na'r egwyddor hyd-braich. Byddai hyn, yn ein barn ni, yn golygu cefnu ar y Llys a lleihau maint y Cyngor a newid strwythur y pwyllgor. Byddai'r broses hon yn gorfodi datblygiad dull newydd o ddewis aelodau'r Cyngor, wedi ei seilio ar yr egwyddor o dryloywder ac nid yn ddibynnol ar y Llys fel canolfan ddewis. Efallai na fydd y ddarpariaeth o newid atodol i'r siarter, sy'n ddibynnol ar gymeradwyaeth gan y Cyfrin Gyngor, yn darparu ar gyfer y fath newidiadau strwythurol sylfaenol ac efallai y bydd angen deddfwriaeth sylfaenol. Rydyn ni'n argymell fod cyngor cyfreithiol ar wahân yn cael ei gymryd ar y mater yma.

**Tryloywder.**

15. Mae'r Cyngor wedi cydnabod yr angen am newidiadau i gwrdd ag egwyddorion pwyllgor Nolan. Mae argymhellion wedi cael eu cynnig i adolygu trefniadau enwebu - mae is-grðp o'r Cyngor ar hyn o bryd yn cwblhau trefniadau ymarferol. Rydyn ni'n awgrymu y dylai'r argymhellion gael eu harolygu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru pan fo'r trefniadau i gyd wedi eu rhoi yn eu lle.

**Proffil**

16. Mae'r arolwg rydyn ni wedi ei gynnal i fesur y defnydd o wasanaethau megis materion darllen ac ymweliadau â gwefannau yn nodi fod angen am dipyn gwell hyrwyddo ar y Llyfrgell. Caiff hyn ei gefnogi gan ganlyniadau ymgynghori o bob cyfeiriad, staff, cyngor, partneriaid a'r cyhoedd lle mae termau tebyg i "Y gyfrinach gedwir orau yng Nghymru" yn cael eu defnyddio'n aml. Mae hefyd yn amlwg fod lleoliad corfforol yn broblem y bydd yn rhaid i'r Llyfrgell ei hymladd trwy gymysgedd o weithgareddau ymestyn allan a chodi proffil gweithgareddau wedi eu lleoli yn Aberystwyth. Roedd y Llyfrgell yn cydnabod y problemau yma o ganlyniad i'w ymarferiad ymgynghorol ei hun gynhaliwyd ym1999 ac mae wedi bod yn cynnal strategaethau ymestyn allan newydd. Rhaid i lawer o hyn gael ei weithredu trwy raglenni hirdymor sydd ddim ond yn dechrau dangos unrhyw ganlyniad ar hyn o bryd. Mae cryn dystiolaeth, yn enwedig o ganlyniad i arddangosfeydd diweddar, y gall pobl gael eu cyfareddu gan y Llyfrgell unwaith y dôn nhw i wybod amdani.

**Gwaith Gwblhawyd.**

17. Er mwyn cyrraedd ei gasgliadau mae'r tîm fu'n cynnal yr arolwg wedi ymgynghori'n eang trwy gyfweliadau gyda budd-ddeiliaid, staff a rheolwyr ynghyd ag ymarferiad ymgynghori cyhoeddus eang. Yn ychwanegol at hyn, ceisiwyd gwybodaeth am strwythur, gwasanaethau a chostau nifer o sefydliadau tebyg. O ganlyniad i'r ymgynghoriadau a'r arolygon yma daethpwyd i nifer o gasgliadau:

    - Mae gan y Llyfrgell rhychwant ehangach o gasgliadau nag unrhyw sefydliadau tebyg, yn rhannol oherwydd diddordeb eang ei sefydlwyr, ond yn bennaf oherwydd nad oes gan Gymru y rhychwant eang o gyrff a allai fabwysiadu rolau arbennig rywle arall.
    - A derbyn cymhlethdod ychwanegol gweithredu'n ddwyieithog (a gefnogir yn llwyr gan y Llyfrgell), ni cheir unrhyw dystiolaeth o aneffeithlonrwydd sylweddol pan edrychir ar hyn ar lefel strategol. Rhoddir sylw pellach i'r mater hwn yn Rhan 2 o'r arolwg.
    - Mae'r Llyfrgell eisoes yn gwneud cryn dipyn o waith gyda phartneriaid trwy eu cysylltiad proffesiynol gyda llyfrgelloedd eraill sydd, o dan y ddeddf, yn derbyn copïau o bob deunydd printiedig, a thrwy ei rôl flaenllaw yn y fath brosiectau â'r Archif Genedlaethol Sgrîn a Sain Cymru (AGSSC) a "Chasglu'r Tlysau"

**Cyllido**

18. Roedd y rhan yma o'r arolwg hefyd yn rhoi sylw i faterion cyllido allweddol gaiff eu gosod allan yn rhan 5. Mae nifer o faterion sydd yn arbennig o allweddol i gyllido yn y dyfodol:

- Datrys materion tâl ac amodau gwaith sydd eu hangen i ateb pryderon godir gan archwiliad tâl teg ac i ddelio â rhai materion recriwtio.
- Lleihau cyllido preifat o ganlyniad i fuddsoddiadau o bwys yn y Ganolfan Ymwelwyr sy'n debygol o gael effaith hirdymor ar gyllido'r costau rhedeg o tua £500,000 y flwyddyn.
- Yr angen i egluro polisi codi arian a chwilio am gyfleon ychwanegol i godi arian lle nad ydyn nhw'n gwrthdaro â gwasanaethau am ddim i ddefnyddwyr a chynnig gwasanaethau i grwpiau newydd o ddefnyddwyr.

**Datblygu incwm allanol**

19. Nodwyd nifer o faterion a allai ddal nôl neu hybu datblygiad incwm allanol pellach. Mae datblygiad y Profiad i Ymwelwyr a'r proffil y bydd hwnnw'n ei gynhyrchu yn adeg ddelfrydol i roi sylw i'r materion hyn:

- Does dim polisi'n bodoli ar gynhyrchu incwm er mwyn cynghori staff ar beth yw'r rheolau i'w dilyn. O ganlyniad i hyn mae'r staff yn wyliadwrus o'r pwnc.
- Dydy polisïau codi arian ddim yn cael eu trafod yn **rheolaidd** fel rhan o unrhyw brosiect neu ddatblygiad newydd. Dylid gwneud hyn petai ond i wrthod y posibilrwydd am resymau da.
- Dydy'r Llyfrgell ddim wedi datblygu cynnig i ddenu mwy o roddion (e.e. trwy ddynodi sut y byddai'r arian yn cael ei ddefnyddio ac yn rhoi enghreifftiau). Gallai cynhyrchu a marchnata'r fath gynnig i roddwyr posib/ ymgynghorwyr proffesiynol fod yn effeithiol dros ben.
- Byddai'n fuddiol edrych ar y posibiliadau o fanteisio'n well ar yr AGSSC (Archif Genedlaethol Sgrîn a Sain Cymru). Câi hyn ei seilio ar well catalogio a mynediad i'r we.

20. Mae argymhellion manwl y rhan hon o'r arolwg wedi eu crynhoi isod.

**Crynodeb o'r Argymhellion**

1. **Dylid cadw swyddogaethau'r Llyfrgell fel corff unigol wedi ei gyllido gan CCNC** (6.22)
2. **Newid y Strwythur Llywodraethol i wella tryloywder ac effeithiolrwydd y Llyfrgell.** (6.49)

Dylai'r Llyfrgell a Llywodraeth Cynulliad Cymru ymgynghori ar foderneiddio strwythur llywodraeth y Llyfrgell er mwyn ceisio gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd wedi eu seilio ar fodelau o Fyrddau Ymddiriedolwyr sy'n gweithredu mewn mannau eraill. Derbynnir y byddai angen amser sylweddol i weithredu'r fath newidiadau ond ni ddylen nhw yn y pen draw beryglu yr egwyddor hyd-braich na statws elusennol y Llyfrgell. Mae'r pwynt wedi ei gyflwyno'n effeithiol y dylai holl aelodau'r Cyngor feddu ar gariad at ddysgu - allwn ni ddim gweld angen i beryglu hyn wrth newid y strwythur.

3. **Dylid ceisio ffyrdd i ddiddymu'r Llys a darganfod ffyrdd eraill o gyflawni ei ddyletswyddau.** (6.43)
4. **Dylai'r Llyfrgell weithio'n agosach gydag Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru ar weithgareddau Ymestyn allan.** (6.26)

Dylai'r Llyfrgell Genedlaethol a'r Amgueddfa genedlaethol ymchwilio i'r posibilrwydd o wneud apwyntiad ar y cyd i weithio gyda'r ddau dîm rheoli i ddefnyddio adnoddau wedi eu cyfuno yn fwy effeithiol ac i hybu rhaglenni ymestyn allan.

5. **Mae angen rhoi sylw i gyllido tymor hir ar fyrder er mwyn cwrdd â'r bylchau a nodwyd.** (5.12)

Mae'n rhaid i'r Llyfrgell roi sylw, gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, i gyllido gweithgareddau y tu hwnt i 2004/5 wedi eu seilio ar y cynllun ar gyfer y tair

blynedd nesaf a fydd yn adlewyrchu’r gostyngiad yn y lefelau incwm o gyllid preifat yn ystod 2005/6, i gynnwys:

- Lefelau posibl cyllido GMC (GIA)
- Newid rhwng mathau o gyllido GMC (GIA) (e.e. efallai cynyddu costau rhedeg ond lleihau’r gronfa prynu neu ymrwymiadau cyfalaf) er mwyn hwyluso hyrwyddo’r Llyfrgell fel derbynnydd teilwng o gymynroddion.
- Effeithlonrwydd a gwasanaethau newydd.

**6. Cymryd camau pendant i godi proffil y Llyfrgell.** (4.12)

Mae’r ymgynghoriad ac arolygon yn dangos yr angen i hyrwyddo proffil y Llyfrgell ac i godi ymwybyddiaeth o’i wasanaethau. Mae hyn yn golygu nid yn unig y gylid gwthio’r Ganolfan Ymwelwyr, datblygiad y wefan a digideiddio - mae hefyd yn golygu cysylltiad mwy effeithiol ac uniongyrchol gyda grwpiau targed.

**7. Cwblhau ail-strwythuro a chamau i strwythuro cyflogau.** (5.8)

Dylid gofyn i’r Llyfrgell gyflwyno cynlluniau ar gyfer y newidiadau angenrheidiol i fynd â’r ail-strwythuro gam ymlaen, yn ogystal â gwerthuso’r cyllido a’r rhyddid i weithredu fyddai eu hangen i wneud hyn. Yn ogystal â hyn dylid gofyn i’r Llyfrgell gyflwyno’u cynlluniau i weithredu strwythur cyflog newydd i’w ystyried gan Llywodraeth Cynulliad Cymru, wedi ei anelu at greu amgylchedd lle y gellid delio ag unrhyw anghysonderau a nodir yn yr ymchwiliad tâl cyfartal ar sail gyfredol, a lle na byddai staff newydd yn cael eu rhwystro gan y cyflogau cychwynnol presennol. Dylid gofyn i’r Llyfrgell i nodi sut y gallai cwblhau’r ad-drefnu gyfrannu at gyllido strwythur cyflogau newydd ar sail gyfredol. Rydyn ni’n argymell y dylai’r cynlluniau yma hefyd roi sylw i:

- Cael cytundeb i batrymau gweithio hyblyg fyddai’n caniatáu amrywiaeth yn y dyfodol mewn oriau agor/ cyflwyno gwasanaeth heb fynd i gostau ychwanegol.
- Dileu graddfeydd bonws ar oramser er mwyn cyd-fynd â mwy o hyblygrwydd.

**8.** Dylai arolwg pum mlynedd o Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru ystyried manteision ac anfanteision uno gweithrediadau archif y Comisiwn â rhai’r Llyfrgell. (6.29)

**9.** Mae’r Llyfrgell wedi cynllunio trefn ethol Swyddogion I’r Cyngor ar sail sy’n cytuno ag arfer da. Mae Pwyllgor Enwebu’r Cyngor yn gwneud y trefniadau olaf ac fe ddylai’r rhain gael eu cwblhau mor fuan â phosibl. (6.44)

**10.** Dylai’r Llyfrgell greu polisi ar godi arian sy’n gadarnhad o’r awydd i wneud yn fawr o unrhyw incwm allanol mewn ffyrdd nad ydynt yn groes i’r syniad o wasanaethau sydd am ddim i ddefnyddwyr i ysgolheigion a’r cyhoedd. Dylai hon fod yn ddogfen ymarferol sy’n dangos arfer da. (5.14)

**11.** Dylai fod yn ymarfer safonol i’r Llyfrgell i roi sylw i botensial codi arian unrhyw strategaeth neu brosiect yn ystod ei lunio, petai ond i wrthod y posibilrwydd am resymau da - mae gwrthod am resymau da yn rhesymol, mae methiant i’w ystyried yn afresymol. (5.14)

**12.** Dylai’r Llyfrgell ddatblygu cynllun i ddenu mwy o gyllid preifat wedi ei seilio ar gynnig eglur i roddwr potensial, gan adeiladu ar y tŏf mewn gweithgareddau ymestyn allan. (5.12)

**13.** Dylid rhoi mwy o bwyslais ar ddatrys problemau technegol mynediad drwy’r we i gatalogau presennol AGSSC yng nghynlluniau AGSSC a dylid adolygu cefnogaeth IS yn y maes yma. (5.16)

**14.** Gwasanaethau llyfrgell y Cynulliad (6.29)

Dylai'r Cynulliad brofi gwerth rhedeg ei wasanaeth llyfrgell ei hun yn Cathays trwy wahodd y Llyfrgell Genedlaethol i gynnig yn erbyn Cytundeb Lefel Gwasanaeth (er ein bod yn awgrymu blaenoriaeth isel i'r pwynt hwn).

Argymhellir bod Llyfrgell y Cynulliad yn trafod archifo deunydd darllediadau'r Cynulliad gyda AGSSC yn nhermau dewis, storio, a dulliau mynediad cyfredol i bob fformat presennol.

**15.** Y Cynulliad i ddarganfod a chynghori unrhyw rôl bosib i'r Llyfrgell mewn archifo cofnodion cyhoeddus yng Nghymru. (6.29)

**16.** Dylai'r Llyfrgell gyfarwyddo Llywodraeth Cynulliad Cymru yn llawn yngln â'i gynlluniau ar gyfer rheolaeth gyfredol o'i gyllid preifat. (5.12)

**17.** Dylai'r Llyfrgell asesu oblygiadau gwella lefel y catalogio yn AGSSC. (5.16)

# 1. Cyflwyniad

1. Y cam cyntaf yn y broses arolygu pum mlynedd yw'r adroddiad hwn. Mae Cam 1 wedi ei anelu at herio egwyddorion sylfaenol yr 'Angen' (yr ochr alw) a cham 2 y 'Modd' (yr ochr gyflenwi):

   - *a oes angen yn dal i fodoli am i'r swyddogaeth gael ei weithredu ac am ba mor hir? (NB Gallai fod yn gyfan neu mewn rhan)*
   - *beth yw'r fframwaith cyfreithiol sy'n rheoli Llyfrgell Genedlaethol Cymru?*
   - *a yw swyddogaethau'r Llyfrgell Genedlaethol yn dal i fod yn angenrheidiol?*
   - *a oes raid iddyn nhw gael eu gweithredu gan CCNC - neu a oes opsiynau eraill i ymgymryd â'r swyddogaethau yn debygol o fod yn fwy effeithiol?*
   - *a gân nhw'u gweithredu'n well gan gorff sengl?*
   - *A oes angen rhesymoli swyddogaethau rhwng Llyfrgell Genedlaethol Cymru a chyrff cyhoeddus eraill sy'n ymwneud â chyflenwi gwasanaethau tebyg yng Nghymru?*

2. Rydym yn cydnabod y datblygiad sylweddol sydd wedi ei gyflawni yn ystod y tair blynedd diwethaf ers i'r Llyfrgell lansio'i ymarferiad ymgynghori ei hun. Mae llawer wedi ei wneud i ddatblygu agenda mwy rhyngweithiol yn natblygiad gweithgareddau ymestyn allan. Mae'r gymeradwyaeth a'r caffaeliad o gyllido ar gyfer y Ganolfan Ymwelwyr, lansiad Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru mewn partneriaeth â Sgrin, a phrofi technoleg digideiddio ar draws y rhychwant eang o weithgareddau yn llwyddiant nodedig.

## 2. Cefndir

**Swyddogaethau'r Llyfrgell**

1. Cenhadaeth Llyfrgell Genedlaethol Cymru (y Llyfrgell) yw i gasglu, cadw a darparu mynediad i wybodaeth wedi ei recordio mewn pob ffurf ddogfennol, gyda phwyslais arbennig ar y cofnod deallusol o Gymru, er mwyn pawb sy'n ymwneud ag ymchwil a dysgu, neu ar gyfer anghenion addysgol eraill.

2. Mae gan y Llyfrgell bum swyddogaeth grai, gafodd eu gwirio ym 1999 gan arolwg cynhwysfawr, Dewis y Dyfodol:

    1. **Casglu**

        Mae'r Llyfrgell yn casglu defnyddiau trwy adnau cyfreithiol, pryniant, rhoddion, cymynroddion, cyfnewid ac adnau. Mae'r ffurfiau yn cynnwys llyfrau, llawysgrifau, defnyddiau heb eu cyhoeddi, cyhoeddiadau cyfresol a phapurau newydd, cerddoriaeth brintiedig, mapiau, ffotograffau a lluniau, sain a defnyddiau delweddau symudol a defnyddiau gwreiddiol-ddigidol ar fformat electronig.

        Polisi casglu'r llyfrgell yw:

        - casglu casgliad mor gyflawn â phosibl, ym mhob cyfrwng, o ddefnyddiau wedi eu cyhoeddi, sy'n ymwneud â Chymru (ac i raddau llai, y gwledydd Celtaidd eraill)
        - i gadw'r casgliad mwyaf cynhwysfawr yng Nghymru o ddefnydd printiedig ar Ynysoedd Prydain, a gweithiau gyhoeddwyd mewn gwledydd eraill i gefnogi ymchwil bellach mewn meysydd arbennig.
        - i ddatblygu casgliadau o ddefnyddiau sydd heb eu cyhoeddi hyd yma yn ymwneud â, neu yn deillio o, Gymru.

    1. **I gadw a gwarchod** y defnyddiau yn y casgliad.

    1. **I ganiatáu mynediad i** ddefnyddwyr y Llyfrgell i'w hadeiladau, casgliadau a gwasanaethau,ynghyd â gwybodaeth digonol amdanyn nhw.

    1. **I godi ymwybyddiaeth a rhannu gwybodaeth** am gasgliadau'r Llyfrgell.

    1. **I gydweithio** gyda, a, lle bo'n addas, rhoi arweiniad i gyrff proffesiynol cysylltiedig eraill ym meysydd gwasanaeth a hysbysrwydd, archifau, amgueddfeydd ac orielau.

3. Caiff y Llyfrgell ei gyllido'n bennaf trwy Grant mewn Cymorth fel Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC) er ei fod yn parhau i fod yn sefydliad annibynnol a sefydlwyd trwy Siarter Frenhinol ym 1907 ac mae'n elusen gofrestredig. Yn 2002-02 fe fydd yn gwario £7.8 o arian CMG a thua £660,000 o gronfeydd preifat yn ogystal â thua £170,000 mewn grantiau o ffynonellau eraill. Yn ogystal â hyn bydd yn derbyn bron £1.7m mewn grantiau o Gronfa Treftadaeth y Loteri dros y ddwy flynedd nesaf tuag at adeiladu Profiad i Ymwelwyr ar y safle yn Aberystwyth. Ychwanegir at hyn gan gyfraniadau sylweddol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac o gronfeydd preifat. Y lefel staffio ar gyfer 2002-3 yw 267 o staff.

4. Mae swyddogaethau'r Llyfrgell i gyd wedi eu lleoli yn Aberystwyth, er fod cynlluniau i sefydlu presenoldeb yng Nghanolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd ac ar safle yng Ngogledd Cymru.

    **Strwythur y llyfrgell**

5. Mae sail gyfreithiol strwythur y Llyfrgell wedi ei seilio ar bedair elfen:

   - Siarter 1907, a newidiwyd wedyn ar nifer o achlysuron, yn diffinio’n glir y swyddogaethau a’r amcanion. Y Siarter yw sail ei fodolaeth annibynnol ac mae’n diffinio’i bwrpas sylfaenol: "casglu, cynnal a chadw llawysgrifau, defnydd printiedig, mapiau, ffotograffau, defnydd sain a gweledol yn ymwneud â Chymru a phobl Geltaidd a defnydd tebyg sy’n datblygu nodau addysg uwch ac ymchwil lenyddol a gwyddonol."
   - Statud o dan y ddeddfwriaeth Elusennol. Fel Elusen rhif 525775 rhaid i’r Elusen weithredu o dan reolau’r Comisiwn Elusennau, er enghraifft, pan ddaw yn fater o bwerau buddsoddi a thalu ymddiriedolwyr. Mae disgwyl i’r Llyfrgell hefyd ddatgan ei sefyllfa ariannol yn flynyddol. O ganlyniad mae’r Llyfrgell yn ennill mantais treth a’r statws pwysig o fod yn elusen gofrestredig yn nhermau denu rhoddion a chymynroddion.
   - Y contract gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a gynhwysir yn Natganiad y Rheolwyr a’r Memorandwm Ariannol. Mae’r ddogfen hon yn sefydlu’r Llyfrgellydd fel Swyddog Cyfrifo sy’n gyfrifol i’r Cynulliad ac i’r Llywodraeth. Mae’r ddogfen hefyd yn dynodi fod y Cyngor yn dal cyfrifoldeb ymddiriedol am y llyfrgell, ond heb glymu’r Cyngor i mewn i berthynas ffurfiol.Mae hefyd yn diffinio pwerau a chyfrifoldebau’r Llyfrgell trwy nifer o orchmynion yn ymwneud â rheolaethau a chyfrifoldebau gyda’r Cynulliad, e.e. yngln â strwythurau cyflog. Mae’r rhain yn debyg iawn i’r rheolaethau gaiff eu cymhwyso i CCNC eraill ac i adrannau a reolir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.
   - Mae deddfwriaeth adnau cyfreithiol 1911a deddfwriaeth ac offerynnau canlynol. O dan y ddeddfwriaeth hyn mae gan y Llyfrgell yr hawl i fynnu copi o bob eitem brintiedig ar Ynysoedd Prydain. Gall arfer ei hawl i beidio â mynnu deunydd mewn rhai categorïau arbennig.

**Cyfansoddiad y Llys**

6. O dan y Siarter, y Llys yw’r prif awdurdod dros y Llyfrgell. A dweud y gwir nid yw ond yn arfer ychydig iawn o ddylanwad uniongyrchol, gan mai ei brif rôl yw ethol swyddogion i’r Cyngor. Mae’n cynnwys 4 AS dros Gymru, 4 apwyntiad o Lywodraeth Cynulliad Cymru (mae tri o’r rhain hefyd ar y Cyngor), 9 o brifysgolion a cholegau Cymru, 7 o lywodraeth leol (yn cynnwys Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Tref Aberystwyth), cynrychiolwyr o:

   - Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru
   - Coleg yr Iesu, Rhydychen
   - Cyngor Gwasanaethau Llyfrgell a Hysbysrwydd (Cymru)
   - Y Llyfrgell Brydeinig
   - Cymdeithas Llyfrgelloedd Cymru (CILIP nawr)
   - Cyngor Celfyddydau Cymru
   - Y Cyngor Llyfrau Cymraeg
   - CBI (Cymru)
   - TUC yng Nghymru
   - Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru
   - Ffrindiau’r Llyfrgell Genedlaethol
   - Orielau Celf yng Nghymru
   - Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (Cymru)

Yngħþd â’r tri aelod etholedig a’r deg aelod cyfetholedig dyma’r hanner can aelod sy’n ffurfio’r Llys. Mae’n cyfarfod yn gyhoeddus unwaith y flwyddyn er mwyn derbyn Adroddiad Blynyddol a chyfrifon y Llyfrgell a gall gyfarfod ar adegau eraill hefyd.

**Cyfansoddiad y Cyngor**

7. Caiff Swyddogion y Llyfrgell - y Llywydd, Is-Lywydd a’r Trysorydd - eu hethol gan Lys y Llyfrgell. Mae aelodau’r Llys hefyd yn rhoi sail i benodi naw aelod pellach. Caiff tri aelod eu hethol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae’r cyfanswm o 21 aelod yn cynnwys cyfethol chwe aelod pellach gan y Cyngor. Mae’r Cyngor yn cwrdd yn gyhoeddus bum gwaith y flwyddyn, bedwar gwaith yn Aberystwyth ac unwaith rywle arall. Cymraeg yw iaith y rhan fwyaf o’r gweithgareddau gydag adnoddau cyfieithu i’r Saesneg ar gael. Cadarnhawyd bod y cofnodion yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Llyfrgell.

8. Mae gan y Cyngor reolaeth lwyr o’r Llyfrgell o dan dermau’r Siarter, ac mae aelodau’r Cyngor yn ymddiriedolwyr yr elusen o ganlyniad i’w swydd. Mae nifer o bwyllgorau sefydlog mewn bodolaeth:

| **Pwyllgor** | **Cadeirydd** | **Pwrpas** | **Amlder** |
|---|---|---|---|
| Cynllunio ac Adnoddau | Trysorydd | Goruchwylio materion ariannol. Buddsoddiad. | 4 gwaith y flwyddyn |
| Adeiladau | Is-Lywydd | Cynnal a chadw adeiladau a Datblygu. Iechyd a Diogelwch. Diogelwch cyffredinol. Defnydd tir. | 4 gwaith y flwyddyn |
| Staffio | Llywydd | Cymeradwyo polisi AD. Materion staffio strategol | 4 gwaith y flwyddyn |
| Archwilio | Is-Lywydd | Cymeradwyo datganiadau ariannol. Adolygiad o archwiliadau mewnol/ allanol | 2 waith y flwyddyn |
| Enwebiadau | Llywydd | Cymeradwyo’r trefniadau ar gyfer ethol aelodau newydd yn ôl egwyddorion Nolan | fel bo’r galw |

Yn ogystal â hyn gall pwyllgor argyfwng gwrdd i wneud penderfyniadau rhwng cyfarfodydd y Cyngor ar faterion sydd heb eu dirprwyo i bwyllgor. Fe’i gelwir yn ‘Gyfarfod Swyddogion’ ac ni ddefnyddir ef yn aml yn ymarferol fel pwyllgor argyfwng, er bod y Swyddogion yn cwrdd yn rheolaidd. Yn y gorffennol ffurfiwyd pwyllgorau pellach i ystyried Marchnata, Technoleg Gwybodaeth, Llyfrau a Chofnodion. Nid yw’r rhain yn gweithredu bellach. Ffurfiwyd bwrdd ar y cyd â Sgrin i oruchwylio Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru (AGSSC).

9. Yn ddiweddar aildrefnodd y Llyfrgell ei strwythur. Wedi ei seilio ar adroddiad gan Ymgynghorwyr Rheoli Pamela Whitford-Jackson, mae’r adrannau curadurol blaenorol - Llawysgrifau a Chofnodion, Llyfrau Printiedig, a Lluniau a Mapiau - wedi eu huno i greu Adran Gwasanaethau Casglu gyda swyddogaethau ychwanegol perthnasol, megis Digideiddio a Chadw, a gynhwysid cyn hyn yn yr Adran Weinyddol a Gwasanaethau Technegol. Yr un pryd mae Adran Gwasanaethau Cyhoeddus newydd wedi ei ffurfio i ganolbwyntio ar y galw o’r tu allan am wasanaethau. Yn ogystal â thrafod gwasanaethau darllenwyr ac ymholiadau gan y cyhoedd, mae hefyd yn dal rheolaeth olygyddol o’r wefan, yn cynnwys y marchnata, addysg a materion yn ymwneud ag arddangosfeydd, ac fe fydd yn cymryd cyfrifoldeb am y gwasanaethau a’r cyfleusterau a gynigir yn y Profiad i Ymwelwyr newydd. Bwriedir i’r strwythur newydd gynnig ffocws newydd

ar wasanaethau i gwsmeriaid ac ar ymestyn allan a mwy o hyblygrwydd mewn datblygu, rheoli a gofalu am y casglu. Mae’r gwasanaethau adeiladau, diogelwch, Adnoddau Dynol a Systemau Gwybodaeth yn dod yn rhan o Adran newydd Gwasanaethau Corfforaethol sy’n cynnig gwasanaethau ar draws adrannau.

**Perthynas gyda’r Cynulliad**

10. Fel a nodir yn 2.3 uchod ac yn y tabl yn 5.1 isod, mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn ariannu 90% o wariant y Llyfrgell trwy gyfrwng Grant -mewn-Cymorth (heb gynnwys y grant o £1m sydd wedi ei roi i ariannu rhan o gostau’r Ganolfan Ymwelwyr sy’n cael ei hadeiladu yn y Llyfrgell). Mae’r cymorth hwn ar ffurf costau rhedeg, grant pryniant a grant cyfalaf ac fe fydd ar y lefel o bron £7.8m yn 2002-3

11. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ei hun yn uniongyrchol apwyntio dri aelod o’r Cyngor ac, fel mater o bolisi a chydymffurfiaeth â rheolau’r Comisiwn Elusennau, nid yw’n briffio’r aelodau hyn yngln ag effaith ymddangosiadol polisi mewn perthynas â’r Llyfrgell. Cedwir cyswllt cyson rhwng yr Adran Diwylliant a’r Llyfrgell, trwy’r tîm rheolwyr hþn. Fel yn achos CCNC eraill cynhelir cyfarfodydd rhwng Aelodau â’r Llywydd. Caiff y Llythyr Ailgyfeirio oddi wrth y Gweinidog Diwylliant ei gyfeirio at y Llywydd. Caiff cyllid Grant-mewn- Cymorth ei gytuno yn dilyn ystyriaeth o Gynllun blynyddol Corfforaethol tair blynedd y Llyfrgell ac fe seilir y Cynllun Gweithredol blynyddol ar y lefelau cyllido. Gwneir hawliadau Grant-Mewn-Cymorth ar sail fisol o dan reolau’r Cynulliad. Mae’r Pwyllgor Diwylliant yn gofalu am arolygu materion y Llyfrgell, gan gynnal arolygon achlysurol o weithgareddau pan deimlir fod eu hangen.

**Cyswllt â Chyrff Cyhoeddus Eraill yng Nghymru**

12. Mae gan y Llyfrgell gysylltiadau cryf â Phrifysgol Cymru yn ei holl safleoedd - ac fe adlewyrchir hyn yn aelodaeth y Cyngor (ac eithrio Prifysgol Cymru, Caerdydd). Mae ganddi hefyd berthynas gweithio da gydag Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru (AOCC) ar bolisi casgliadau a rhyng-fenthyg nifer fechan o eitemau i gefnogi arddangosfeydd ac ati. Yn wahanol i’r Llyfrgell, mae gan AOCC a CADW - sy’n gyfrifol am gofebion archeolegol - safleoedd ar draws Gogledd, Canol a De Cymru. Mae’r Llyfrgell ac AOCC yn rhannu’r potensial o fod yn gyfrifol am gasgliadau symudol allai gael eu defnyddio’n effeithiol i gefnogi gwaith sy’n ymestyn allan. Mae gan y Llyfrgell hefyd gysylltiadau ar dwristiaeth a allai fod yn bwysig ac mae eisoes wedi cynnal trafodaethau gyda Bwrdd Twristiaeth Cymru a Chyngor Ceredigion. Caiff diddordeb proffesiynol ei rannu gan y Llyfrgell a Chyngor Gwasanaethau Gwybodaeth (Cymru), Cymdeithas Llyfrgelloedd Cymru a’r Cyngor Llyfrau Cymraeg, a gânt i gyd eu cynrychioli ar y Llys. Mae hefyd cysylltiadau cryf gyda nifer o gyrff eraill nad sy’n cael eu cynrychioli ar y Llys. Mae’r Llyfrgell hefyd yn aelod gweithgar o’r consortiwm o gyrff diwylliannol gaiff ei gadeirio gan y Gweinidog Diwylliant, "Cymru’n Creu".

**Proffil o’r Llyfrgell**

13. Wrth ymgynghori mae’r Llyfrgell wedi ei disgrifio fel "Cyfrinach orau Cymru". Mae’r ymwybyddiaeth o gyfoeth y ei chasgliadau yn isel ar hyn o bryd oddi fewn yn ogystal â’r tu allan i Gymru, oni bai am rai meysydd allweddol megis yr ysgoloriaeth Geltaidd. Mae’r Llyfrgellydd a’r Cyngor yn benderfynol o newid hyn, ond mae’n amlwg yn dasg sylweddol. Mae’r pellter mewn amser oddi wrth prif ganolfannau poblog Cymru yn creu’r angen am ymateb ar draws nifer o feysydd, gan gynnwys TG, arddangosfeydd a chysylltiad uniongyrchol â rhychwant o grwpiau defnyddwyr. Mae ymdrechion y Llyfrgell i ddilyn agenda ymestyn allan hefyd yn cael eu cydnabod gan y rhan fwyaf o atebwyr ac mae cefnogaeth gref i barhad ac ymestyn yr ymdrechion hyn.

**Crynodeb o’r Pwyntiau**

14. Mae’r Llyfrgell yn gorff annibynnol yn nhermau’r gyfraith ac yn elusen sy’n derbyn tua 90% o’i gyllid gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

15. Mae iddi strwythurau llywodraethol traddodiadol iawn nad yw yn eistedd yn gyfforddus gyda’r berthynas gyda’r Cynulliad. Ar gyfer y rhan fwyaf o bwrpasau mae’r Adran Ddiwylliant yn delio’n uniongyrchol gyda thîm rheoli gweithredol y Llyfrgell. Mae’r Llywydd bob amser yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor.

16. Er gwaethaf natur eclectig cynrychiolaeth y Llys mae’r Llyfrgell yn parhau i feddu ar broffil isel, sydd i’r gwrthwyneb i’r angen am ymestyn allan i gwrdd â’r agendâu osodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru Mae ymdrechion glew yn cael eu gwneud i newid y sefyllfa hon ac mae’r ymgynghoriad yn cefnogi’r farn fod

gwelliannau sylweddol wedi eu gwneud ers 1999. Mae nifer o fentrau, fel y Profiad i Ymwelwyr, y rhaglen Ddigideiddio ac apwyntiadau marchnata diweddar, eto i gael unrhyw effaith sylweddol ar y ffordd yr ystyrir y Llyfrgell er gwaetha'r gwaith cychwynnol da sydd wedi ei gwblhau.

# 3. Cymariaethau gyda Sefydliadau Eraill

**Sut mae swyddogaethau'n cymharu â, ac yn gwahaniaethu oddi wrth, llyfrgelloedd cendlaethol eraill.**

1. Mae'r Llyfrgell yn un o chwe llyfrgell sydd â hawl gyfreithiol i dderbyn adneuon ar Ynysoedd Prydain, y lleill yw Y Llyfrgell Brydeinig (LlB), Llyfrgell Genedlaethol yr Alban (LlGA), Llyfrgell Bodleian, Prifysgol Rhydychen (BoRh) , Llyfrgell Prifysgol Caergrawnt (LlPC) a Choleg y Drindod, Dulyn (CDD). Mae yna hefyd Lyfrgell Genedlaethol Iwerddon (LlGI) sy'n lyfrgell genedlaethol adnau cyfreithiol ar gyfer Gogledd Iwerddon yn hytrach nag Ynysoedd Prydain i gyd.

2. Mae'r llyfrgelloedd uchod i gyd yn casglu defnyddiau printiedig, llyfrau, llawysgrifau, mapiau a cherddoriaeth. Mae LlGA hefyd yn casglu defnyddiau eraill sy'n berthnasol i'r Alban megis ffilm, fideo a defnyddiau clyweled. Mae LlGI hefyd yn cartrefu Archif Genedlaethol Ffotograffiaeth Iwerddon mewn dull tebyg i Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

3. Y Llyfrgell yw'r unig adnau cyfreithiol ar Ynysoedd Prydain, sy'n casglu'r defnyddiau uchod i gyd, yn ogystal â lluniau. Mae rhychwant ei chasgliadau'n unigryw.

4. Gan y Llyfrgell Brydeinig mae'r rôl sylfaenol ymhlith llyfrgelloedd adnau cyfreithiol wrth sicrhau sylw cynhwysfawr, cofnodi a chadw'r archif genedlaethol. Mae'r llyfrgelloedd eraill i gyd, yn ogystal â chasglu'n eang, yn cymryd cyfrifoldeb am y sylw cynhwysfawr oddi fewn i'w ardaloedd daearyddol, ieithyddol ac arbenigedd pwnc. Adlewyrchir hyn mewn rhwymedigaeth ar i gyhoeddwyr anfon defnyddiau'n awtomatig i'r LlB ac mewn ateb i holiadau yn achos y llyfrgelloedd eraill.

5. Mae gan lyfrgelloedd cenedlaethol Cymru, yr Alban a'r Iwerddon nodau cyffredin wrth:

   - Gasglu, edrych ar ôl, a gwneud yn hygyrch ddefnyddiau'n ymwneud â'u gwlad eu hun mewn llawysgrifau, print a chyfryngau eraill.
   - Bod yn llyfrgell adnau cyfreithiol cenedlaethol, er fod LlGI ddim ond yn cadw defnyddiau sy'n berthnasol i'r Iwerddon.
   - Bod yn llyfrgell ymchwil gyffredinol.

6. Mae'r Llyfrgell yn unigryw gan mai hi yw'r unig lyfrgell adnau cyfreithiol neu genedlaethol yn Ynysoedd Prydain sy'n gweithredu'n ddwyieithog. Siaredir Cymraeg gan tua 80% o'r staff a chynhelir y rhan fwyaf o'r Cyfarfodydd trwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae dogfennau a phapurau allanol yn cael eu cynhyrchu yn y ddwy iaith. Felly, yn ei weithgaredd dyddiol mae'r Llyfrgell yn cefnogi "Cynllun i Gymru" Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei fwriad i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, ac atgyfnerthu diwylliant arbennig a chreadigol Cymru. Felly, Mae'r Llyfrgell yn cynnig amgylchedd gwaith deniadol i siaradwyr Cymraeg, ac mae wedi denu nifer o staff o'r tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg, gan gynnwys y Llyfrgellydd.

7. Er hynny, mae cost yn gysylltiedig a gweithredu gwasanaeth dwyieithog yn nhermau adnoddau cyfieithu, a chylch recriwtio sydd â'r potensial o fod yn fwy cyfyng.

8. Y Llyfrgell yw'r unig lyfrgell adnau cyfreithiol neu genedlaethol nad yw wedi ei lleoli mewn prifddinas neu ddinas o bwys. Er bod Aberystwyth yn ganolog i'r rhan fwyaf o Gymru, mae teithio yno ar y ffyrdd a'r rheilffyrdd o rannau eraill o'r D.U. yn anodd ac yn cymryd amser, ffactor sy'n cael ei adlewyrchu yn y nifer o ddarllenwyr ac ymwelwyr, ac mae i'r ffactor hwn oblygiadau i staff sy'n teithio i gyfarfodydd. Trafodir hyn yn fanylach yn ein hadroddiad Cam 2.

9. Felly, gan fod nifer o elfennau tebyg i lyfrgelloedd adnau cyfreithiol eraill, mae yna hefyd wahaniaethau pwysig. Mae i'r Llyfrgell gylch gwaith ehangach nag unrhyw lyfrgell arall sy'n lyfrgell genedlaethol neu sydd ag adnau cyfreithiol ar Ynysoedd Prydeinig gan ei fod yn gweithredu'n ddwyieithog a'i bod yn casglu

rhychwant ehangach o ddefnyddiau nag unrhyw un arall. Caiff ei chydnabod fel yr un sydd â'r casgliad mwyaf cynhwysfawr yn y byd o ddefnyddiau sydd yn berthnasol i Gymru, yr iaith a chelfyddyd Gymraeg.

10. Ystyrir mai Llyfrgell Genedlaethol yr Alban yw cymharydd agosaf y Llyfrgell, gan fod iddi hithau hefyd boblogaeth cartref cymharol fach ac mae iddi nodau tebyg, er bod ganddi bolisi casglu culach. Mae'r ffaith fod y ddwy lyfrgell yn aelodau o'r Pwyllgor Sefydlog ar Adnau Cyfreithiol (PSAC) ac o'r Rhaglen Rhannu Catalogio Llyfrgelloedd Hawlfraint, ac felly'n rhannu polisïau hygyrchedd a chatalogio gyda llyfrgelloedd adnau cyfreithiol eraill ar Ynysoedd Prydain hefyd yn arwyddocaol gan fod y trefniant hwn yn gweithio i leihau cyfrolau gwaith ar y cyd a chyflawni safonau cyffredin.

11. Mae'r lefel uchel o amrywiaeth yn cael ei yrru ymlaen yn rhannol gan nodau sefydlwyr y Llyfrgell - er enghraifft, ystyrir cynnal arddangosfeydd yn rhan bwysig o weithgareddau'r Llyfrgell. Mater pwysig arall yw diffyg yr un rhychwant eang o sefydliadau ag a geir mewn nifer o gyd-destunau llyfrgelloedd cenedlaethol eraill. Er enghraifft, yng Nghymru ni cheir dim sydd yr un peth â'r Archifdy Gwladol a'r Gymdeithas Ffotograffiaeth Frenhinol - mae'r angen amlwg i lenwi rhai o'r bylchau o greu croniclau ar gyfer gwlad fechan wedi bod yn ffactor bwysig mewn dylanwadu ar rychwant gweithgareddau'r Llyfrgell.

12. Mewn ffordd real iawn mae'r Llyfrgell yn cyfuno dyletswyddau Llyfrgell ac Amgueddfa, sefydliad academaidd, storfa cofnodion cyhoeddus, a chanolfan dysgu yn ogystal â bod yn atyniad i ymwelwyr. Yn wahanol i Lyfrgelloedd Bodleian a Phrifysgol Caergrawnt mae'n sefyll ar wahân i sefydliad Prifysgol Cymru a sefydliadau addysg Uwch Cymreig eraill, er ei fod yn dal i'w cefnogi. Yn wahanol i nifer o lyfrgelloedd cenedlaethol, yn cynnwys y Llyfrgell Brydeinig, mae ganddi bolisi drws-agored, felly gall unrhyw oedolyn fod yn ddarllenwr heb orfod profi fod ganddo gymwysterau academaidd.

13. Ar lefel strategol rydyn ni wedi gwneud arolwg o amrywiaeth o weithrediadau llyfrgell genedlaethol / llyfrgell adnau cyfreithiol, yn cynnwys gweithrediadau dwyieithog yng Nghanada a Gwlad Belg. Rydyn ni wedi canfod nifer o wahaniaethau sy'n golygu fod gwneud cymariaethau'n hynod anodd. Er enghraifft mae'r amrywiaeth o ddefnyddiau a gasglwyd yn aml yn wahanol iawn. Mae rhai yn cynnal gweithrediadau aml-safle. Mae eraill wedi eu cysylltu'n agos â sefydliadau addysg uwch, ac mae dod o hyd i wybodaeth ddibynnol ar wahân ar weithgareddau llyfrgell yn anodd iawn - mae hyn yn wir am Lyfrgelloedd Bodleian a Phrifysgol Caergrawnt. Mae'r safonau gynhelir gan lyfrgelloedd hefyd yn amrywio rhwng gwledydd - er gwaetha'r tueddiad i ganolbwyntio ar safonau cyffredin fel y'u gweithredir gan Lyfrgell y Gyngres - a gall hyn effeithio ar bwysau gwaith yn sylweddol. Mae pob llyfrgell oddi fewn i PSAC yn gweithredu i safonau cyffredin ar gasgliadau cyffredin. Er hynny mae'n bosib dod i gasgliadau cyffredinol yngln â chost a'r ffordd mae llyfrgelloedd yn cael eu rhedeg ar lefel strategol. Am y rhesymau nodir yn 3.10 uchod rydyn ni'n ystyried mai Llyfrgell Genedlaethol yr Alban sy'n cymharu agosaf. Mae ystadegau cymharol yn cael eu rhoi yn Atodiad 1. Rydyn ni wedi gwneud cymariaethau ehangach oedd yn llai defnyddiol wrth wneud asesiad o effeithiolrwydd cost ond mae iddyn nhw ddiddordeb yn nhermau strwythur ac amrywiaeth casgliadau. Mae'r rhain wedi eu cynnwys yn Atodiad 3.

**Crynodeb o Gymariaethau**

- Ar yr olwg gyntaf mae'r gwaith o gofnodi (y gwaith o dderbyn defnyddiau newydd i'r Llyfrgell) yn 83-84% o'r hyn a wneir gan LlGA. Er hynny, mae'r gofynion dwyieithog yn gosod llwyth cyfrannol uwch ar y Llyfrgell (er gwaethaf y defnydd eang o thesawrws awtomatig).
- Yn seiliedig ar gyhoeddiadau mae llwyth gwasanaeth i'r darllenwr yn llawer is nag un LlGA. Gall maint y boblogaeth, lleoliad a strwythur y casglu oll chwarae rhan yn hyn.
- O ran costau gweithredu mae'r Llyfrgell yn cael ei redeg ar tua 75% o gost LlGA - mae hyn yn gymhariaeth ffafriol o ystyried y llwyth gwaith tebyg wrth gofnodi a chatalogio.
- Mae grant prynu'r Llyfrgell yn llai na 60% o grant LlGA sydd â bâs mwy cyfyng o gasgliadau ac mae'r cyllid gaiff ei glustnodi ar gyfer gwaith cadw yn dipyn llai (ar gasgliad tipyn llai o lyfrau a llawysgrifau)
- Mae cynhyrchu incwm yn cymharu'n ffafriol gyda LlGA o ganlyniad i gyllid preifat uwch a ddelir gan y Llyfrgell.
- Mae cwmpas casglu yn y Llyfrgell yn cynnwys eitemau nad ydynt i'w cael yng nghasgliadau LlGA: Recordiadau sain, darluniau a phrintiadau a lluniau, archifau.
- Ceir gorgyffyrddion ac anghysonderau sylweddol ym mand cyflogau'r Llyfrgell nas gwelir unrhyw le arall.
- Yn benodol mae cyflogau cychwynnol yn ymddangos yn isel yn y Llyfrgell, llai felly ar gyfer swyddi uwch.

14. Daeth yr ymarferiad cymharol i'r casgliad nad oes tystiolaeth strategol o ddiffyg effeithlonrwydd ar ran y Llyfrgell mewn cymhariaeth â sefydliadau tebyg - edrychir ar hyn yn fanylach yng ngham 2. Y prif bryder yn hytrach yw'r nifer o ddefnyddwyr mae'r Llyfrgell yn gallu eu gwasanaethu mewn cymhariaeth ag eraill.

## 4. Ymgynghoriad

1. Fel rhan o'r arolwg rydyn ni wedi cynnal ymgynghoriad ffurfiol gyda tua 600 sefydliad oddi fewn a'r tu allan i Gymru. Yn ogystal â hyn mae'r ymgynghoriad wedi ei gyhoeddi ar wefannau'r Cynulliad a'r Llyfrgell er mwyn i'r nifer mwyaf o bobl eu gweld. Mae'cyfathrebiad yn cydnabod yr ymarfer pwysig a gynhaliwyd gan y Llyfrgell ei hun ym 1999 - "Dewis y Dyfodol". Mae'r holiadur a'r llythyr cyflwyno i'w gweld yn atodiad 2.

2. Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda:

   - Y Llyfrgell
   - Y Prif Fudd-ddeiliaid a Phartneriaid
   - Y Cyhoedd

**Ymgynghoriad y Llyfrgell**

3. Gwnaethom gyflwyniad i gyfarfod o'r Cyngor i egluro natur yr ymgynghoriad ac i wahodd aelodau'r Cyngor i gymryd rhan mewn grwpiau ffocws er mwyn gallu casglu eu barn ar amrywiaeth o faterion o gryfderau/gwendidau'r Llyfrgell yn eu cysylltiad â defnyddwyr, eu gweledigaeth ar gyfer y dyfodol a sut mae gwireddu hynny, a gofynion sgiliau allweddol. Gofynnwyd iddyn nhw hefyd am eu barn ar y cysylltiad gyda'r Cynulliad Cenedlaethol.

4. Ar gyfer staff fe drefnwyd grwpiau ffocws yn y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer pawb a ddymunai gymryd rhan ac fe ofynnwyd am farn yr undeb ar faterion pwysig trwy holi cadeirydd Cyngor Whitley yn y Llyfrgell.

5. Mewn nifer sylweddol o achosion ymddangosodd themâu cyffredin ymhlith aelodau a staff y Cyngor. Holwyd aelodau'r Cyngor hefyd yn eu rôl fel budd-ddeiliaid, yn cynrychioli grwpiau â diddordeb yn y gwasanaethau mae'n eu darparu. Gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

   **Cryfderau:**

   - Cyfoeth o ddefnydd wedi ei gyfuno â statws adnau cyfreithiol;
   - Cysylltiadau gydag addysg uwch, rhagoriaeth academaidd a phroffesiynoldeb;
   - Cryfder rheolaeth y Llyfrgell a gwella perthynas rhwng staff;
   - Mwy o ymwybyddiaeth a llwyddiant cynyddol wrth ymgymryd â newid
   - Staff cefnogol ac ymroddedig
   - Cyfle proffil a gynigir gan y prosiect Profiad i Ymwelwyr;
   - Y farn fod y Llyfrgell wedi ei seilio yn ei amgylchedd a'i bod yn 'perthyn i bobl Cymru;
   - Roedd staff yn teimlo fod cyfathrebu wedi gwella'n sylweddol a bod amodau gwaith yn dda, ac eithrio'r mater allweddol sef cyflog;

   **Gwendidau:**

   - Mae proffil y Llyfrgell yn parhau'n gyndyn o isel (oddi fewn a'r tu allan i Gymru)
   - Mynegwyd gofid fod y Llyfrgell yn cael ei gweld dim ond fel sefydliad "Treftadaeth" (h.y. un sy'n edrych nôl)

- Problemau recriwtio o ganlyniad i’r cyflog/lleoliad/prinder ymgeiswyr da dwyieithog;
- Pryderon rhai staff am agwedd elitaidd tuag at ddisgyblaethau mwy academaidd - peth pryder na fydd unrhyw strwythur newydd yn effeithiol os nad yw’n ddigon hyblyg;
- Pryder y bydd morâl yn aros yn yr unfan nes i’r materion allweddol am gyflog gael eu datrys;
- Dim ateb hyd yma am faterion allweddol hawlfraint, a allai gael effaith ar ledaenu defnydd digidol [gwnaed y pwynt hwn mewn cysylltiad ag adnau cyfreithiol o ddefnydd ‘sy’n ddigidol yn wreiddiol a’r gallu i wneud defnydd digidol ar gael o bell];
- Er gwaetha cryn botensial, mae’r cynnydd mewn gweithio gyda llywodraeth leol ac ysgolion yng Nghymru yn gyfyngedig;
- Gwnaeth rhai o aelodau’r Cyngor sylw am straen newid a’r perygl o ledaenu’r adnoddau’n rhy denau.

**Materion yn ymwneud â Defnyddwyr / Defnyddwyr Posibl**

- Pryderon a yw’r Profiad i Ymwelwyr a’r arddangosfeydd yn cael eu defnyddio’n effeithiol i godi proffil;
- Angen marchnata’r amrywiaeth eang o’r hyn sydd ar gael gan fynd ar ôl "twristiaeth gelfyddydol" gyda Bwrdd Twristiaeth Cymru;
- Llyfrgelloedd cyhoeddus, colegau AU, ysgolion gaiff eu clustnodi fel targedau allweddol;
- Angen gwella agwedd ‘cyfeillgar i blant’ y Llyfrgell;
- Angen gwelliannau i gyfleusterau ar-lein a’r wefan;
- Mae angen targedu hyd yn oed defnyddwyr academig yn well;
- Datblygu allbyst wedi eu seilio ar dechnoleg a chynghori effeithiol;

**Gweledigaeth pum mlynedd - elfennau allweddol**

- Agwedd well gan bobl o’t tu allan wedi ei seilio ar adnodd mwy hygyrch
- Proffil rhyngwladol a phroffesiynol cryf
- Yn cael ei gweld fel adnodd o sylwedd - e.e. ar gyfer paciau addysg
- Cefnogwr celfyddyd Gymreig ar bob lefel;
- Adnodd hawdd cael ato/ cyfeillgar/ deniadol i blant a grwpiau cymunedol;
- Wedi ei glymu i mewn i wead Cymru trwy greu mwy o bartneriaethau;
- Pobl yn mudo i Gaerdydd a llefydd eraill oni bai fod y cyflog a’r mater o symbylu staff yn cael eu hateb;

**Sylweddoli’r weledigaeth**

- Hyfforddi a buddsoddi mewn staff, cadw hyblygrwydd a datblygu cyfathrebu gwell;
- Delio â materion AD, yn cynnwys materion nad sy’n ymwneud â chyflog;
- Angen adnoddau digonol, e.e. i ddatblygu cyfleusterau technegol;
- Mynd ar drywydd targedau arbennig mewn ardaloedd sy’n debygol o ddod â llwyddiant - yn enwedig addysg (agenda synhwyrol a ellir ei gwireddu / bod yn ddewr wrth fynd ar drywydd a gwrthod mentrau);
- Llwyddo i gael cydbwysedd rhwng mentrau a ariennir gan refeniw a’r rhai a ariennir gan brosiectau - asesu’r peryglon yn ofalus, yn enwedig prosiectau mawr;

**Rhwystrau i’r newid**

- Pwysau amser - codwyd hyn gan un o aelodau’r Cyngor, rheolwyr a staff;
- Lleisiwyd gofid ar ‘brynu i fewn’ - "cyflymder yr arafaf" yn rhwystro newid celfyddydol;

- Angen goresgyn trafferthion trafnidiaeth yn Aberystwyth;
- Peidio â dychwelyd at yr hen strwythur ond oedi ac edrych ar yr un newydd i sicrhau nad yw'n rhwystro cynnydd;
- Peidio â mynd dros ben llestri gyda'r agenda newydd os yw hyn yn golygu methu â gwneud y swydd mewn llaw yn effeithiol;
- Cyfyngiadau Hawliau a thechnoleg - gweithio'n agos at lyfrgelloedd eraill i ddatrys hyn.

6. Gofynnwyd cwestiynau ychwanegol i aelodau'r Cyngor yngln â materion yn ymwneud â'r berthynas gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru ac a oedd prinder sgiliau allweddol ar y Cyngor neu ymhlith y rheolwyr er mwyn newid yr agenda. Gellir crynhoi'r atebion fel a ganlyn:

**Dolenni cyswllt â'r Cynulliad Cenedlaethol**

- Pwyslais ar bwysigrwydd triniaeth "hyd braich" (e.e. er mwyn cadw statws elusennol, cefnogi cymynroddion, a sicrhau fod y Llyfrgell yn mynd ar ôl amryw o goliau)
- Credu fod cydnabyddiaeth barhaol sefydliad Siarter yn hollbwysig;
- Pwysigrwydd apwyntiad annibynnol swyddogion y Cyngor;
- Dymuno cael y Cynulliad yn bartner wrth yrru'r agenda newydd yn ei blaen tra'n cytuno ar y materion craidd sylfaenol.

**A ydych chi'n meddu ar y sgiliau angenrheidiol?**

- Pwysig fod gan graidd y Cyngor gariad / ddeallusrwydd o ddysgu a gwasanaethau'r Llyfrgell.
- Derbyn rôl fwy ar gyfer enwebiadau'r pwyllgor mewn adnabod y setiau o sgiliau fydd eu hangen yn y dyfodol;
- Mewn unrhyw strwythur newydd mae angen datblygu sgiliau cyfathrebu rhwng gweithredwyr a'r rhai nad ydynt yn weithredwyr;
- Ardaloedd lle y gellid cryfhau'r cyngor:
  - Rheolaeth prosiect,
  - Strategaeth TG a
  - masnach;
- Gwendidau'r rheolwyr:
  - Marchnata - apwyntiadau diweddar
  - Addysg - apwyntiad wnaed i ddechrau'r haf, a
  - Personél - mae gweithredu mewn llaw ar hyn o bryd.

7. Byddwn yn cyfeirio nôl at gasgliadau'r ymgynghoriad mewn yn hwyrach yn yr adroddiad.

**Ymgynghoriad Budd-ddeiliad a Phartner**

8. Talodd nifer o fudd-ddeiliad deyrngedau i bwysigrwydd y Llyfrgell i ysgolheictod yng Nghymru. Tynnwyd sylw arbennig at ei rôl unigryw mewn perthynas â'r iaith Gymraeg, felly hefyd ei rôl gyda Llyfrgell Genedlaethol yr Iwerddon fel canolfan i astudiaethau Celtaidd. Er hynny fe ddaethom ar draws gofidiau yngln â'r hyn a welir gan rai yn or- bwyslais ar y celfyddydau (yn cynnwys diwydiant ac economeg) a hynny ar draul gwyddoniaeth. Roedd hon yn thema gafodd ei nodi yn ymgynghoriad y Llyfrgell ei hun "Dewis y Dyfodol" ym 1999.

9. Mae'r Prifysgolion a sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn amlwg yn ystyried y Llyfrgell yn ased yn y modd mae'n casglu defnydd ar Gymru ac yn y Gymraeg. Soniodd un atebwr am bwysigrwydd AGSSC i'r corff o astudiaethau'r cyfryngau sy'n dal i dyfu. Mae'r Ganolfan Gymraeg Uwch ac Astudiaethau Celtaidd wedi rhoi pwyslais arbennig ar bwysigrwydd Canolog casgliadau'r Llyfrgell wrth wneud ei waith.

**Ymgynghoriad Cyhoeddus**

10. Wedi eu seilio ar ymatebion i’r ymgynghoriad cyhoeddus rydym yn gweld amrywiaeth barn ar berfformiad yn dibynnu ar gefndir yr atebwr. Y pwyntiau sy’n codi o’r ymgynghoriad yw:

- **Cyd-destun Strategol** - roedd bron pawb a ymatebodd ac a fynegodd farn yn dweud fod ganddyn nhw syniad clir am brif strategaethau‘r Llyfrgell wrth iddyn nhw geisio amcanion i Gymru a bod y strategaethau yma’n gefnogol i’w sefydliadau. Roedd y mwyafrif yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar ddatblygiadau ond roedd rhai yn anghytuno: "Mae cydweithredu’n digwydd ad hoc neu’n yn ôl gofynion tasg arbennig. Does dim cyfle i edrych ar faterion strategol ar y cyd - gallai cysylltiad personol oresgyn y broblem hon ond efallai y byddai’n fwy gwerthfawr creu corff fyddai’n caniatáu trafodaeth reolaidd a’r cyfle i glustnodi blaenoriaethau oddi fewn i’r sector" (Llyfrgelloedd Cyhoeddus). Ychwanegodd atebwr arall y gallid gwella’r cyswllt trwy "ffurfioli - yn enwedig i gyrff gwirfoddol sydd heb gysylltiadau strwythurol, proffesiynol". Cydnabyddodd un beirniad fod yr ymdrechion i ymestyn allan hyd yma o leiaf wedi llwyddo i’w wneud yn ymwybodol o rôl y Llyfrgell wrth iddi fynd ar drywydd strategaethau ar gyfer Cymru.

  Ar fater cysylltiadau proffesiynol cafwyd canmoliaeth unfrydol bron

  oddi wrth sefydliadau sy’n bartneriaid. Yr hyn a oedd wedi creu’r fath argraff oedd nid yn unig fod y Llyfrgell wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau ar y cyd ond hefyd mewn gwelliannau sylweddol er gwell roedden nhw’n weld oedd wedi digwydd ers 1999. Roedd y gofidiau yngln â chysylltiadau yn deillio o sefydliadau oedd yn ymwneud llai â gweithgareddau archifo ac academaidd - yn bennaf yn y sector gwirfoddol, grwpiau lleiafrifol (yn cynnwys lleiafrifoedd du ac ethnig yng Nghymru) ac yn ardal y llyfrgell gyhoeddus/ awdurdod lleol. Roedd nifer y fath ymatebion yn gymharol isel, ond efallai y dylai hyn hefyd yn achosi peth pryder. Ond mae hefyd beth anniddigrwydd yn y byd academaidd: "Angen gwell deunydd hyrwyddo i roi cyhoeddusrwydd i’r defnyddiau ymhlith staff academaidd ac ymchwilwyr".

- **Rheolaeth** - mae nifer ddim yn deall y strwythur a does ganddyn nhw ddim rheswm i wneud hynny. I’r rhai sydd yn deall, y materion pwysicaf yw cadw strwythur hyd braich a rhoi cyfle i uwch reolwyr i ddechrau system o newid. Mae peth gofid fod y strwythur sydd mewn bodolaeth eisoes yn ddim ond modd i roi sêl bendith ar bethau a bod y strwythur yn ‘anhylaw’. Disgrifiwyd y strwythur hefyd fel "Rhy fawr i fod yn gorff strategol effeithiol".
- **Swyddogaethau Craidd.** Roedd cefnogaeth unfrydol bron i bwysigrwydd y swyddogaethau craidd. Awgrymwyd rhai ychwanegiadau o bwys i’r swyddogaethau craidd, gyda ffocws yr atebwyr ar y pwyslais yn bennaf. Roedd peth teimlad y dylen nhw gael eu hailffurfio gyda mwy o bwyslais ar angen y defnyddwyr. Lleisiwyd cefnogaeth i fwy o bwyslais ar ddarparu hygyrchedd, ymgynghori (yn enwedig lleiafrifoedd), hyrwyddo a chydweithio. Mae ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn cael derbyniad da gyda phleidlais o hyder arbennig yn dod oddi wrth y Comisiwn Llawysgrifau Hanesyddol. Codwyd materion arbennig (fel yn "Dewis y Dyfodol") yngln â thuedd tuag at y celfyddydau a’r lefelau ymddangosiadol is o ddefnyddiau ymchwil ar bynciau gwyddonol - codwyd y pwynt yma’n arbennig fel pwynt am ymchwil diwydiannol Gymreig.

  Roedd lefel yr ymwybyddiaeth o’r pwyslais roddir ar swyddogaethau craidd yn amrywiol iawn - yn gyffredinol roedd llyfrgelloedd eraill a chyrff academaidd yn ymwybodol ac roedd eraill yn tueddu i beidio â bod. Gellir dadansoddi cynnydd y swyddogaethau craidd fel a ganlyn:

  - Casglu - da i resymol
  - Cadw - da i resymol
  - Darparu mynediad - Amrywio rhwng da i wael - rhesymol ar gyfartaledd
  - Dehongliad Cyhoeddus - Rhesymol
  - Cydweithio proffesiynol - Da
- O’r gwasanaethau craidd teimlai atebwyr y dylid cefnogi’r swyddogaethau craidd i gyd (dim cefnogaeth ar gyfer pwyslais is). Cafwyd y gefnogaeth gryfaf i’r pwyslais presennol ar gasglu a chadw. Roedd darparu hygyrchedd ynghyd â hyrwyddo a dehongli’n feysydd y dylid rhoi mwy o bwyslais arnyn nhw yn ôl bron pawb a fynegodd farn. Ar y mater o gydweithio proffesiynol roedd y farn yngln â phwyslais, yn naturiol, wedi ei rhannu. Daw cefnogaeth oddi wrth sefydliadau sy’n cydweithio eisoes neu sy’n gallu gweld manteision mewn cydweithio - mae grwpiau eraill yn llai brwdfrydig. Un ymateb arbennig, sy’n gefnogol ac yn berthnasol, yw: "Mae gan LlGC gymaint i’w gynnig i’r llwyfan Prydeinig, mae’n ymddangos yn anghyfrifol i ganolbwyntio dim ond ar faterion proffesiynol Cymreig." Hefyd rhoddir sylw arbennig i ddibyniaeth astudiaethau Cymraeg a Cheltaidd ar y Llyfrgell. Nododd nifer o atebwyr yr awydd i weld hwyluso benthyg rhwng y llyfrgelloedd Cymraeg - trafodir y mater hwn yn rhan 2 o’r arolwg.

- **Cyfeiriadau Newydd.** Mae atebwyr yn gyffredinol yn frwdfrydig yngln â chyfeiriadau newydd gyda'r prif bwyslais ar ddigideiddio, datblygu gwasanaethau i bawb sy'n dysgu a mwy o ddefnydd o'r adeiladau. Er mwyn ceisio bwrw 'mlaen â'r amcanion yma mae tua dwy ran o dair o'r rhai a fynegodd farn yn rhoi mwy o bwyslais ar adeiladu partneriaethau. Roedd y gefnogaeth i ddatblygu pellach mewn gwasanaethau addysg uwch wedi ei gyfyngu i tua hanner ac roedd y gweddill yn teimlo fod y pwyslais presennol yn foddhaol. Roedd rhai atebwyr yn mynegi'r farn na ddylid cyfyngu ar wasanaethau craidd (er mwyn ariannu cyfeiriadau newydd) neu nad ydynt, yn eu barn hwy, yn derbyn cyllid digonol. Roedd dealltwriaeth bendant ymhlith nifer o atebwyr fod rhaid i'r Llyfrgell wneud dewisiadau yngln â'r hyn mae'n ei wneud ac yn blaenoriaethu ei adnoddau yn unol â hynny.
- **Cymhellion, Anghymelliadau, Gorgyffyrddiadau a Chyllido.** Mae'r mwyafrif llethol o atebwyr yn cael bod y Llyfrgell yn effeithlon ac yn effeithiol yn y gwasanaethau maen nhw'n eu cyflenwi. Roedd y rhai oedd yn anghytuno yn poeni am gysylltiadau effeithiol a chynrychiolaeth: "Anhawster adnabod a chael at y swyddi sy'n gallu gwneud penderfyniadau/ cyfeirio gweithredu". Mewn ateb i'r cwestiwn yngln ag anghymelliadau cododd yr atebwyr i gyd bron y cwestiwn o leoliad: "Pellter - daearyddol a seicolegol" a hefyd: "Rydyn ni'n gallu teithio i Lundain yn haws nag i Aberystwyth". Pwynt a godwyd gan rai atebwyr oedd ymwybyddiaeth o'r Llyfrgell ymhlith grwpiau lleiafrifol ac argaeledd y gwasanaethau i gael at y cyfleusterau. Ar y mater o bellter daearyddol aeth nifer o atebwyr ymlaen i wneud y cysylltiad penodol â phwysigrwydd rhoi pwyslais ar weithgareddau ymestyn allan oddi fewn i gyfeiriadau newydd: "Mae angen darparu mwy o fanylion **yma**, unai trwy ddosbarthu dogfennau neu ddigideiddio". Gwnaed nifer fach o sylwadau yngln â'r angen am oriau agor mwy hyblyg. Edrychir ar y materion yma'n fwy manwl yn adroddiad cam 2.

  Nodwyd rhai gorgyffyrddiadau gyda chyrff cyhoeddus eraill Cymraeg. Caiff unrhyw fater a godwyd eu trafod yn rhan 6 o'r adroddiad hwn. Mor bell ag y mae cyllido ychwanegol yn y cwestiwn nodwyd y cyrff arferol sy'n agored i gynigion am gyllido yn y DU ac yn Ewrop - mae'r Llyfrgell yn ymwybodol iawn o'r rhain i gyd. Cododd un awdurdod lleol y mater o gymorth mewn cynnyrch trwy ddarparu pwyntiau mynediad lleol i'r Llyfrgell. Roedd cyfleon am wasanaethau ychwanegol yn cynnwys cyflenwi dogfennau'n electronig a chynadledda trwy gyfrwng fideo.

- **Materion Eraill.** Gwneir nifer o sylwadau canmoliaethus yngln â'r Llyfrgell. Daw'r dystiolaeth orau o ffynhonnell sy'n feirniadol fel arfer: "Yn gyffredinol, hoffem gofnodi fod LlGC wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn bod yn fwy rhag weithiol ac agored i'r sector yng Nghymru ac mae'n dechrau symud i'r un cyfeiriad mewn perthynas â chymdeithasau yng Nghymru - dylid rhoi canmoliaeth am hyn ac anogaeth i barhau â'r broses". Rhoddir cefnogaeth penodol i'r Llyfrgell fel casglwr celfyddyd fodern Cymru. Pwynt arbennig a wnaed gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yw nad yw wedi gofyn i'r Llyfrgell baratoi cynllun iaith o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg gan ei fod yn teimlo fod y Llyfrgell yn darparu gwasanaeth da yn y Gymraeg a'r Saesneg.

  Yn nhermau'r dyfodol ehangach pwysleisiodd nifer o'r atebwyr y rôl ganolog maen nhw'n ei gredu y gall y Llyfrgell ei chyflawni: "Mwy na'r rhan fwyaf o sefydliadau yng Nghymru, mae mewn sefyllfa gref i boblogi'r Rhwydwaith Dysgu Gydol Oes ynghyd â'r datblygiadau band llydan perthnasol gyda deunydd ystyrlon". Hefyd nododd un atebwr "Er mai LlGC yw'r llyfrgell adnau cyfreithiol yng Nghymru, nid yw'n storfa archif cenedlaethol i Gymru". Mae hyn yn ein hatgoffa fod unrhyw rôl ymarferol i'r Llyfrgell fel daliwr archifau cenedlaethol yn fater sydd eto i'w ddatrys.

  A'r farn olaf gaiff ei hadlewyrchu'n gyffredinol gan atebwyr yw: "Fe fydd rôl a swyddogaethau'r Llyfrgell Genedlaethol yn parhau tra bod cenedl y Cymru'n bod, ac mae'n ymddangos mewn iechyd da ar hyn o bryd!"

### Pwyntiau Crynodeb o'r Ymgynghoriad

11. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Yn gyffredinol ymwybyddiaeth isel o rai neu holl weithgareddau'r Llyfrgell.
- Angen gweithio i oresgyn problemau lleoliad
- Cryn gynhesrwydd a chanmoliaeth oddi wrth y rhai sy'n gwybod am ei gweithgareddau, a chefnogaeth i barhad yr holl wasanaethau
- Cydnabyddiaeth o gryn ddatblygiad yn ystod y tair blynedd diwethaf
- Brwdfrydedd yngln â'r datblygiadau newydd, yn enwedig digideiddio a welir fel mecanwaith i oresgyn pellter

- Peth gofid yngln â lefel cyfathrebu rhwng y Llyfrgell â chyrff sydd â diddordeb oddi fewn i Gymru, yn enwedig y gofynion y tu allan i addysg uwch.
- Gofidiau oddi fewn i addysg hþn am ateb anghenion ymchwil Cymraeg
- Mwy o angen am ymgynghori, yn cynnwys yr angen i ateb anghenion lleiafrifoedd du ac ethnig a grwpiau anabl yng Nghymru yn ogystal ag anghenion craidd celfyddyd Gymreig.
- Angen cyffredinol am bwysleisio anghenion defnyddwyr - mwy ar yr ochr galw, llai ar yr ochr cyflenwi.
- Nodwyd rhai gorgyffyrddiadau gyda chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru.
- Cymeradwywyd pwysigrwydd datblygiadau newydd wrth ddelio â materion allweddol "Gwell Cymru", yn enwedig dieithrio cymdeithasol, cyfleon cyfartal a phartneriaeth.
- Rhai gofidion yngln â'r angen am fenthyca mwy eang ac oriau agor mwy hyblyg.

12. Mae'r canlyniadau'n nodi'n glir yr angen ar i'r Llyfrgell barhau yn ei hymdrechion i godi ei phroffil, yn fodd i godi ymwybyddiaeth o'r hyn sydd ganddi i'w gynnig ymhlith niferoedd uwch o gymunedau yng Nghymru, yn ogystal ag yn fodd i oresgyn problemau ymddangosiadol real iawn yngln â mynediad.

## 5. Ffurf Cyllido

**Sut mae'r Llyfrgell yn cael ei chyllido ar hyn o bryd**

1. Mae'r tabl isod yn nodi amlinelliad o gyllido'r Llyfrgell ar gyfer 2002-3 a hefyd yn dangos ffynonellau'r cyllid ar gyfer y buddsoddiad sylweddol yn Profiad Ymwelwyr:

| | **£000** |
|---|---|
| **Costau Gweithredu** | |
| | |
| Cyfanswm y Costau Rhedeg | 7518 |
| Incwm | (250) |
| Costau Rhedeg Net | 7268 |
| | |
| Cyllidir gan: | |
| Grant-mewn-Cymorth | 6535 |
| Cronfeydd Llyfrgelloedd Preifat | 563 |
| Grantiau eraill | 170 |
| | 7268 |

| | |
|---|---|
| **Pryniadau Casgliadau** | |
| | |
| Grant Pryniadau allan o’r Grant-mewn-Cymorth | 611 |
| Cronfeydd Llyfrgelloedd Preifat | 100 |
| Cyfanswm Cronfa Pryniadau | 711 |
| **Cyfalaf (heb gynnwys y Profiad i Ymwelwyr)** | |
| | |
| Cyllid o’r Grant-mewn-Cymorth | 641 |
| Cyfanswm Cyllid Cyfalaf | 641 |
| **Cyfanswm Cyllid** | |
| | |
| Cyfanswm cyllido gan Grant-mewn-Cymorth | 7787 |
| Cyllido Arall | 833 |
| Cyfanswm Gwariant | 8620 |
| **Cyllido’r Profiad i Ymwelwyr 2002/3 -2004/5** | **£m** |
| | |
| Cronfa Treftadaeth y Loteri | 1.7 |
| Grant y Cynulliad Cenedlaethol | 1.0 |
| Cronfeydd preifat y Llyfrgell | 1.6 |
| Cyfanswm y gost | 4.3 |

Dylid nodi’r pwyntiau allweddol canlynol:

- Mae dros 90% o’r cyllido cyfan oddi wrth Grant-mewn-Cymorth

- Mae cyfraniad pwysig at y costau rhedeg yn dod o gronfeydd preifat y Llyfrgell ei hun - sy’n deillio o gymynroddion a rhoddion eraill a’r enillion oddi wrthyn nhw.
- Y prif gyfrannwr i gyllido ar wahân yw’r £150,000 ddarperir gan Sgrin tuag at gostau rhedeg AGSSC.
- Ceir cyfraniad cymharol fach tuag at y costau rhedeg o ffynonellau allanol, trwy arlwyo, llogi cyfleusterau, gwerthiant cyhoeddiadau a darparu copïau o ddefnyddiau yn y casgliadau.

**Rhagolygon Cyllido**

5.2 Mae peryglon allweddol yn gysylltiedig â chyllid y Llyfrgell na sydd yn Grant-mewn-Cymorth.

3. Y cyntaf o’r rhain yw effaith yr ariannu cyfalaf y Profiad Ymwelwyr o gronfeydd preifat. Gwerth cyfalaf y cronfeydd preifat anghyfyngedig yw tua £4.9m gyda swm ychwanegol o £0.5m o gronfeydd cyfyngedig a ellir ond eu defnyddio ar gyfer gwariant penodol (e.e. ariannu ysgoloriaethau ymchwil). O ganlyniad i’r buddsoddi yn y Profiad i Ymwelwyr (gweler uchod) a’r gostyngiad cyffredinol yng ngraddfeydd y farchnad ar fuddsoddiadau, mae’n debygol y bydd cronfeydd anghyfyngedig preifat yn cael eu gostwng i tua £3m erbyn diwedd 2004/5 ac y bydd eu potensial i gynhyrchu incwm o 2005/6 ymlaen yn cael ei ostwng i tua £200,000 y flwyddyn. Fel y gwelir o’r tabl uchod, mae cronfeydd preifat yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd i gynnal gwariant o £663,000 (ar gostau rhedeg a phrynu casgliadau) - felly mae’n debygol erbyn 2005/6 y bydd bwlch rhwng cyllido a gwariant o tua £500,000. Gellir dim ond ateb hyn gan GMC ychwanegol neu trwy arbedion mewn costau / lleihad yn y rhaglenni. Mae’r Llyfrgell yn hollol ymwybodol o’r materion yn codi o ganlyniad i ariannu’r Profiad i Ymwelwyr ac mae wedi bod yn eu trafod ar lefel Pwyllgor a Chyngor ac mae wedi eu codi yn y Cynllun Corfforaethol - mae hefyd yn amlwg fod ariannu’r Profiad Ymwelwyr yn ddefnydd hollol gywir o’r arian hwn.

4. Perygl arall yw ariannu parhaol AGSSC gan Sgrin. Mae’r cytundeb rhwng Sgrin â’r Llyfrgell yn nodi’r angen am rybudd o ddeuddeg mis cyn y gellir dod â chyfraniad Sgrin o £150,000 i ben - mae felly’n ddibynadwy hyd ddiwedd 2002/3. Mae’r naill barti a’r llall wedi ymrwymo i wneud popeth posibl i gynnal eu hariannu, ond caiff Sgrin ei ariannu o nifer o wahanol ffynonellau, yn cynnwys darlledwyr, ac ni ellir bod yn sicr o’r arian. Gan bod y Llyfrgell wedi derbyn gweithwyr Sgrin i gyd cyn sefydlu’r fenter ar y cyd mae’n fodlon wynebu risg methiant i ariannu ac nid yw’r cytundeb yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer cynyddu’r cyfraniad i gyd-fynd â graddfa chwyddiant. Mae’n amlwg fod y Llyfrgell wedi sylweddoli maint y risg pan gytunwyd ar y bartneriaeth ac wedi penderfynu fod hyn yn ddatblygiad hollbwysig a’i bod yn werth cymryd y risg - nid oedd cais am ariannu GMC ychwanegol yn llwyddiannus.

5. Yn olaf mae’n anochel bod peth ansicrwydd yngln â datblygiadau newydd a phartneriaethau potensial newydd. Mae’r Llyfrgell yn hynod gyfrifol ac yn gwybod ei bod yn rhaid gweithredu o fewn y cyllid. Nid yw’r cynlluniau’n derfynol ac mae angen canfod y nifer sydd wedi talu ymweliad â’r Profiad Ymwelwyr ac mae hyd yn oed opsiynau heb gost yn defnyddio adnoddau.Er enghraifft roedd y Llyfrgell yn hynod weithgar yn cydlynu menter "Casglu’r Tlysau". Mewn egwyddor dim ond cynhaliwr y prosiect yw’r Llyfrgell , ond mae wedi llyncu cryn dipyn o arbenigedd TGCh o’r llyfrgell yn ogystal â gwasanaethau trefniadol megis rhestri cyflogau a chyfrifon, ac fe godir tâl eilwaith ar y prosiect am rai o’r rhain.

**Materion a Dewisiadau Cyllido**

**Materion cyflogau a strwythur**

6. Mewn ymgynghoriad nododd y rheolwyr, staff ac aelodau’r Cyngor fod cyflogau a strwythur yn faterion allweddol. Mae archwiliad cyflogau cyfartal gynhaliwyd yn ddiweddar yn dangos fod angen rhoi sylw i faterion cysondeb, yn enwedig ar gyflog cyfartal i ddynion a merched - mae’n amlwg fod y Llyfrgell o dan fygythiad achosion tribiwnlys mewn rhai meysydd. Y broblem sylfaenol yw’r trefniadau sydd mewn bodolaeth nad ydynt yn caniatáu i’r Llyfrgell i addasu cyflogau oddi

fewn i raddfeydd cyflog. Dim ond trwy adolygiad blynyddol o gost chwyddiant neu trwy ddyrchafiad y gall symudiadau cyflog gael eu caniatáu, ac mae'n anodd mesur cynnydd a delio â materion cysondeb ar sail barhaus.

7. Derbyniwyd nifer o gynrychiolaethau gan reolwyr a staff oedd yn mynegi fod cyflogau cychwynnol yn datblygu'n broblem pan yn denu staff. Nid dyma'r unig broblem - mae lleoliad a phrinder staff dwyieithog hefyd yn cael eu nodi - ond mae'r Llyfrgell, er enghraifft, ar hyn o bryd ar y trydydd ymgais i benodi rheolwr personél,- rôl hollbwysig er mewn cefnogi newidiadau staff yn y strwythur newydd.

8. Er y byddem yn cytuno fod rheolwyr y Llyfrgell wedi gwneud camau breision wrth greu strwythur sefydliad mwy rhesymegol ar gyfer y Llyfrgell, rydyn ni o'r farn bendant nad oedd y strwythur newydd wedi ei ddefnyddio yn y ffordd orau oherwydd prinder cyllid i gefnogi ei roi yn ei le. Yn benodol dylai'r strwythur oddi fewn i Adran y Gwasanaethau Casglu fod yn fwy llyfn er mwyn cefnogi gwasanaeth mwy effeithiol ac er mwyn gochel rhag codi bariau rhwng adrannau bychain, fyddai'n cael effaith andwyol ar weithio effeithiol. Mewn ymgynghoriad gyda'r staff câi rheolwyr eu hannog i aros a sylwi ar ffordd o weithio'r sefydliad newydd er mwyn osgoi ffurfiau newydd o ynysu. Mae creu'r gymhareb iawn o reolwyr a staff gweithredol yn rhan allweddol o hyn.

- **Argymhellion:** Y gwneir cais i'r Llyfrgell i gynnig brasluniau o'r newidiadau sydd eu hangen i fynd â'r ail-strwythuro ymlaen gam ymhellach, yn ogystal â gwerthusiad o'r cyllido a'r rhyddid i weithredu fyddai ei angen i wneud hyn. Hefyd dylid gwneud cais i'r Llyfrgell gynnig eu cynlluniau gweithredu polisi cyflog newydd i'w ystyried gan Llywodraeth Cynulliad Cymru, wedi ei anelu at greu awyrgylch lle y gellid delio â'r anghysonderau a nodwyd yn yr archwiliad cyflog cyfartal ar sail barhaol, a lle na byddai staff yn cael eu rhwystro gan y cyflogau cychwynnol presennol. Dylid gofyn yn benodol i'r Llyfrgell nodi sut y gallai cwblhau'r ad-drefnu gyfrannu at ariannu strwythur cyflog newydd ar sail barhaol. Rydym yn argymell y dylai'r cynlluniau yma hefyd roi sylw i:
  - Ennill cytundeb yngln â phatrymau gwaith hyblyg a fyddai'n caniatáu amrywiaeth yn y dyfodol mewn oriau agor/ cyflwyno gwasanaeth heb fynd i gostau ychwanegol.
  - Dileu trethi uwch ar oramser er mwyn creu cysylltiad â hyblygrwydd gwell.

**Materion Cyllido Preifat**

9. Wrth gyfrifo cyllido preifat mae'r Llyfrgell yn amcangyfrif incwm cyfartalog blwyddyn o £30,000 o gymynroddion newydd mewn arian (yn ychwanegol at y casgliadau). Nid yw'r Llyfrgell yn ddiweddar wedi bod yn hyrwyddo'i hun fel buddiolwr cymynroddion mewn unrhyw ffordd drefnus ac fe allai wneud hynny.

10. Mater cysylltiedig arall yw'r defnydd a wneir o gyllid preifat. Ag eithrio'r ymrwymiad i'r Profiad Ymwelwyr mae'r rhan fwyaf o'r cyllid yn mynd tuag at gostau rhedeg - ac eto byddai bron yn sicr o fod yn haws denu cyllid petai'n gallu cael ei ddangos ei fod yn cefnogi datblygiadau. Y cyllido a allai apelio fwyaf at unrhyw dderbyniwr cymynrodd fyddai:

- Cyllido prynu eitemau ar gyfer casgliadau
- Buddsoddi cyfalaf mewn datblygu ymestyn cyfleusterau
- Buddsoddi had þd mewn datblygiadau newydd (gallai sefydlu AGSSC fod yn enghraifft dda).

Mae'n amlwg fod angen mynd i'r afael â newid agwedd oddi fewn i strwythur cyllido cyffredinol GMC

11. Fel a nodir uchod mae'r Llyfrgell yn anelu am fwlch yn eu cyllid o tua £500,000 y flwyddyn o ganlyniad i ddisbyddiad cyllido preifat wrth adeiladu'r Profiad Ymwelwyr.

12. Mae'r Llyfrgell yn bwriadu dderbyn y mwyaf posib allan o'r cyllid preifat ar sail barhaus trwy roi mwy o ddisgresiwn i'w reolwr cyllid gaiff ei roi yn ôl perfformiad yn hytrach na bod rhaid i'r Llyfrgell awdurdodi pob buddsoddiad gaiff ei gynnig gan y rheolwr. Erbyn hyn caiff y ffordd hon o weithio ei chaniatáu gan y Comisiwn Elusennau.

**Argymhellion:**

- Dylai'r Llyfrgell briffio Llywodraeth Cynulliad Cymru yn llawn ar ei gynlluniau ar gyfer rheolaeth gyfredol ei gyllid preifat, fel y'u nodir yn 5.12.
- Mae angen i'r Llyfrgell, ynghþd â Llywodraeth Cynulliad Cymru roi sylw i strwythur cyllido ar gyfer gweithgareddau y tu hwnt i 2004/5 wedi ei seilio ar y cynllun tair blynedd nesaf fydd yn adlewyrchu'r gostyngiad mewn lefelau incwm o gyllido preifat yn 2005/6 i gynnwys:
    - Lefelau potensial cyllido gan GMC (GIA)
    - Newid rhwng dosbarthiadau cyllido'r GMC (GIA) (e.e. potensial i gynyddu costau rhedeg ond gostwng y cyllid pryniant neu ymrwymiadau cyfalaf) er mwyn ei gwneud yn haws i hyrwyddo'r Llyfrgell fel derbynnydd teilwng o gymynroddion.
    - Effeithiolrwydd a gwasanaethau newydd
- Y Llyfrgell i ddatblygu cynllun i ddenu mwy o gyllido preifat wedi ei seilio ar gynnig clir i gyfranwyr potensial , ac adeiladu ar y tðf mewn gweithgareddau ymestyn allan.

**Codi Arian**

13. Mewn ymgynghoriad mae'n amlwg fod y mater o godi arian wedi bod yn fater anghyfforddus i nifer o atebwyr. Mae'r siarter yn darparu ar gyfer hygyrchedd gwybodaeth am ddim i ddefnyddwyr ac efallai fod hyn wrth wraidd yr anniddigrwydd. Mae pryder yn bodoli y gallai codi arian mewn perthynas â gweithgareddau (yn wahanol i trwy gymynroddion) fod yn erbyn nodau gwreiddiol y llyfrgell. Dywedodd un atebwr yn blwmp ac yn blaen: "Dyw'r Llyfrgell ddim yna i wneud arian".

14. Er hynny, mae'n ddiddorol fod dogfen megis y Strategaeth Ddigidol yn cynnwys rhestr o resymau pam y dylid mynd ar drywydd digideiddio, ond dydyn nhw ddim yn cynnwys y potensial i godi arian. Tra'n cydnabod mai nid dyma'r rheswm pwysicaf dros ddigideiddio, mae'n amlwg fod y posibiliadau yno ar gyfer gwasanaeth o werth ychwanegol trwy allu danfon copïau o ddefnyddiau o bell, yn debyg i'r llungopïo mae'r Llyfrgell yn codi tâl rhesymol amdano (gan gymryd y gellir delio â materion hawlfraint yn effeithiol).

**Argymhellion:**

- Dylai'r Llyfrgell lunio polisi ar godi arian fel cadarnhad o'r awydd i wneud y defnydd gorau o incwm allanol mewn ffyrdd fyddai ddim yn gwrthdaro â'r gwasanaethau am ddim i ddefnyddwyr gan ysgolheigion a'r cyhoedd. Dylai hon fod yn ddogfen ymarferol sy'n esbonio arfer da.
- Dylai talu sylw i botensial codi arian unrhyw strategaeth neu brosiect ddod yn arfer safonol yn ystod y ffurfio, petai ond i wrthod y posibilrwydd am resymau da - mae gwrthod cadarnhaol yn rhesymol, mae methiant i'w ystyried yn afresymol.

15. Yn amlwg ni wyddys eto fesur llwyddiant y Profiad i Ymwelwyr. Er hynny mae'r lefel o incwm allanol oddi wrth werthiant nwyddau ac ati yn ymddangos yn isel mewn perthynas â'r nifer targed o 70,000 o ymwelwyr ar gyfer atyniad mynediad am ddim - caiff ei anelu at £50,000 o elw mewn blwyddyn gyfan. Os yw'r ganolfan yn llwyddo i ddenu unrhyw beth tebyg i'r lefel darged o lwyddiant dylai cyfuniad o incwm oddi wrth yr arlwyo a'r marchnata ganiatáu i'r elw hwn fod lawer uwch. O gymryd yr ansicrwydd ynglþn â nifer yr ymwelwyr ni fyddem yn argymell unrhyw newidiadau i'r rhagolygon, ond awgrymu y dylid eu hadolygu yn sgîl profiad ar yr adegau pwrpasol yn ystod y broses gynllunio.

16. Mae'r AGSSC ar hyn o bryd yn cynhyrchu incwm allanol o tua £13,000 y flwyddyn, yn bennaf wrth rannu costau copi gyda pherchnogion hawlfreintiau defnyddiau nas ceir ond yn yr archif, a hefyd trwy gyfleusterau ymchwil ar gyfer darlledwyr sydd â diddordeb mewn themâu arbennig. Mae'r archif hefyd yn berchen ar hawlfraint swm sylweddol o ddefnyddiau gwreiddiol sydd wedi eu recordio, mae'r rhan helaethaf o'r rhain heb eu catalogio neu wedi eu catalogio mewn modd hollol annigonol. Nid yw'r systemau catalogio eto wedi eu gwneud yn gyson â'r prif systemau GEAC neu CAIRS er mwyn galluogi i'r wybodaeth yn y catalog fod ar gael ar wefan y Llyfrgell. Rydyn ni'n credu fod cyfle sylweddol i gynyddu incwm yn y maes yma trwy wneud gwell ymdrech mewn catalogio a thrwy roi sylw i broblemau technegol gwneud y catalog ar gael ar y rhyngrwyd. Gallai'r math yma o wybodaeth hefyd fod yn hollbwysig mewn darparu pecynnau addysg a gwybodaeth ar gyfer y Profiad i Ymwelwyr a gweithgareddau eraill ymestyn allan.

**Argymhellion:**

- Dylai’r Llyfrgell asesu oblygiadau gwella’r lefel catalogio yn AGSSC
- Datrys problemau technegol rhoi catalogau presennol AGSSC ar y we i gael mwy o sylw yng nghynlluniau AGSSC ac adolygu cynnal IS yn y maes hwn.

## 6. Darpariaethau ac Opsiynau ar gyfer Newid

**A oes angen swyddogaethau’r Llyfrgell?**

1. Fel llyfrgell adnau cyfreithiol mae’r Llyfrgell yn un o nifer fach o lyfrgelloedd yn y DU sy’n gallu cefnogi amrywiaeth eang o ddisgyblaethau academaidd ac ymchwil. Mae adnau cyfreithiol wedi darparu ac yn parhau i ddarparu’r mwyafrif helaeth o’r casgliadau o lyfrau printiedig, papurau newydd a chyfnodolion sy’n dod yn wreiddiol o’r DU ac o wledydd tramor ond sy’n cael eu cyhoeddi yn y DU. Y dewisiadau agosaf i ysgolheigion o Gymru yw Rhydychen (Y Bodleian), Llundain (y Llyfrgell Brydeinig a Dulyn (Llyfrgell Coleg y Drindod). Yn ychwanegol at hyn mae gan y Llyfrgell arbenigedd mewn llyfrau a llawysgrifau, gan gynnwys papurau preifat, yn y Gymraeg ac ar themâu Cymraeg sy’n unigryw ac yn ffynhonnell allweddol i ysgolheictod Cymreig.

2. Mae’r casgliad lluniau a phrintiadau yn gorgyffwrdd ychydig gydag Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru.Ond, yn ymarferol, mae’r polisïau casglu, gan mwyaf, yn gyflenwol gyda chasgliad y Llyfrgell yn canolbwyntio’n bennaf ar ar themâu Cymreig, llawer ohono wedi cael ei roi. Mae’r ddau sefydliad yn gweithio gyda’i gilydd i osgoi gwrthdaro a dyblygu. Yn ogystal â hyn mae’r Llyfrgell yn un o brif noddwyr arddangosfeydd ac mae’r casgliadau hyn yn chwarae rhan bwysig mewn polisi arddangos. Rhagwelwyd y casgliad o’r gweithiau celfyddydol yn y Siarter Frenhinol ac mae’n anodd gweld pa ddaioni ddeuai o symud y gorgyffwrdd ymddangosiadol rhwng y Llyfrgell a’r Amgueddfa. Mae’r ffaith fod gan y Llyfrgell ran allweddol i’w chwarae wedi ei hail-bwysleiso gan y rhaglen "Gweithiau Celf mewn Ffrâm" i ddigideiddio gweithiau celfyddydol allweddol. Mae hon yn enghraifft o’r arbenigedd, trwy dechnoleg, y gall y Llyfrgell ei gyfrannu i fyd celfyddyd.

3. Mae’r casgliad ffotograffig yn unigryw ac nid yw’n gorgyffwrdd ag unrhyw gasgliad arall. Mae hefyd yn anodd gweld pa gyrff eraill yng Nghymru a allai ddarparu’r adnoddau a’r arbenigedd i drafod y casgliad hwn. Mae’n rhan bwysig o gyflenwi arddangosfeydd a hynny, o bosibl, o bell, trwy ddigideiddio mewn cydraniadau uchel. Mae rhannau o’r casgliad yn ddiweddar wedi eu cyflenwi trwy ddigideiddio mewn cydraniadau is trwy’r wefan gan ddefnyddio cysylltiadau catalog.

4. Ceir rhai gorgyffyrddiadau gyda Llyfrgelloedd Cenedlaethol eraill yn y casgliadau o fapiau a siartiau. Unwaith eto mae gwell darpariaeth yn Lloegr trwy’r Archifdy Gwladol a sefydliadau sydd wedi eu seilio yn Llundain fel y Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol. Mae’n anodd dod o hyd i unrhyw sefydliad arall yng Nghymru fyddai’n gallu cartrefu’r casgliad hwn. Mae posibilrwydd y gallai’r Llyfrgell ymestyn ei rôl yn y cyfeiriad yma - trafodir hyn isod.

5. Mae’r casgliad sain a delweddau symudol wedi bod yn nodwedd o weithgareddau’r llyfrgell ers y 1970au. Ers y dyddiau hynny mae casgliad sylweddol o ffilmiau a recordiau Cymraeg eu hiaith neu eu testun wedi eu casglu. Yn fwy diweddar mae’r Llyfrgell wedi manteisio ar ei gallu i recordio rhaglenni Cymraeg wrth iddyn nhw gael eu darlledu. Mae llawer o’r defnyddiau cynnar yn unigryw. Mae’r fenter gyda Sgrin wedi tynnu at ei gilydd gasgliad y Llyfrgell ei hun ac archif ffilm Sgrin i ffurfio Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru (AGSSC). Cyn ei ffurfio aethpwyd ar daith o gwmpas archifau’r DU er mwyn asesu ansawdd y deunydd Cymraeg oedd ar gael - cafodd ei asesu’n gyd-ddigwyddiadol ac wedi ei gatalogio’n wael ar gyfer mynediad. Ar wahân i S4C mae archifo darlledwyr Cymraeg wedi bod yn anghyflawn ac mae AGSSC yn llenwi rhai bylchau nodedig. Mae hefyd yn gynyddol debygol y bydd y casgliadau yma’n allweddol i botensial arddangos ac y byddant nhw’n cyfrannu tuag at y Profiad i Ymwelwyr

1. Bydd archifo deunydd electroneg yn dueddiad pwysig i bob llyfrgell archif. Dydy ddeddfwriaeth adnau cyfreithiol ddim eto wedi ei ymestyn i gynnwys deunydd

mewn ffurf electronig, ond mater o ‘pan’ ac nid ‘os’ yw’r ddeddfwriaeth hynny. Mae nifer o sefydliadau eisoes yn cynnig defnyddiau sy’n ddigidol yn wreiddiol mewn ffurf electronig yn wirfoddol - CD a CD ROM yn bennaf hyd yma, ond yn gynyddol trwy adnau trosglwyddedig, gyda’r potensial i gynnwys cryn dipyn o’r defnydd sydd ar hyn o bryd yn cael ei ddarparu ar gopi caled. Mae’n anodd dadlau, felly, nad oes angen i’r Llyfrgell , ynghyd â llyfrgelloedd adnau cyfreithiol eraill i fod ynghlwm iawn â’r maes yma - mae Llyfrgelloedd Cenedlaethol ar flaen y gad mewn creu a defnyddio defnyddiau digidol. Mae hefyd yn allweddol i ddyfodol darpariaeth gwybodaeth o bell, un o brif seiliau agenda ymestyn allan.

7. Rydyn ni wedi dod I’r penderfyniad fod elfennau amrywiol casgliadau’r Llyfrgell i gyd yn berthnasol i ddarparu cyfleusterau ymchwil o’r radd flaenaf ac fel sail i astudiaeth o fywyd Cymraeg a’r iaith Gymraeg. Byddai gollwng gafael ar unrhyw ddosbarth cyfan o gasgliadau neu wasanaeth unai’n lleihau’r gwerth neu’n amharu ar ddatblygiad yr adnodd. Yn yr achos hwn gallai’r polisi casglu gael ei gyfyngu mewn rhai ffyrdd ond mae’n sylfaenol gadarn. Mae swyddogaethau eraill yn berthnasol i ddarparu gwasanaethau ymestyn allan i ledu’r agenda academaidd draddodiadol. Heb amheuaeth mae’r rhain yn bwysig mewn perthynas ag agenda ddiweddar y "Dyfodol Creadigol", ac yn enwedig i ddwyieithrwydd.

8. Os derbynnir y gosodiad fod rhaid i’r rhychwant eang o ddefnyddiau fod ar gael yng Nghymru ac mewn dull hawdd i amrywiaeth eang o ddefnyddwyr eu cyrraedd, yna mae’n anodd dod o hyd i sefydliadau eraill yng Nghymru, a ariennir yn gyhoeddus neu fel arall, fyddai’n gallu rhoi cartref i’r gofal a darpariaeth gwasanaeth perthnasol.
9. Er bod y Llyfrgell wedi bod yn edrych ar y posibilrwydd o sefydlu "pwyntiau presenoldeb", mae ei gweithrediadau ar hyn o bryd i gyd wedi eu lleoli ar ei safle yn Aberystwyth. Yn wahanol i rai sefydliadau celfyddydol Cymreig eraill, felly, nid yw’r cwestiwn yn codi a fyddai rhai safleoedd yn gall cael eu rhedeg yn fwy effeithiol gan asiantaethau eraill.

**Ydy hi’n addas fod y swyddogaethau’n cael eu gweithredu trwy ariannu**

**cyhoeddus?**

10. Mae hygyrchedd i ddefnyddiau archif o bwysigrwydd cenedlaethol yn wasanaeth sy’n arferol yn cael ei ddarparu yn rhad i ymchwilwyr awdurdodedig. Fel a nodir ym mharagraff 3.12 mae’r Llyfrgell yn cymryd golwg eang o bwy sy’n awdurdodedig. Mae darparu mynediad yn rhad hefyd yn cael ei ymgorffori yn Siarter y Llyfrgell. Lle mae sefydliadau fel hyn yn codi am eu gwasanaethau mae’n dueddol o fod trwy ‘werth ychwanegol’. Gallai hyn olygu cynnig defnyddiau ar fenthyg mewn safleoedd anghysbell (y rhan fwyaf o incwm y Llyfrgell Brydeinig), darparu copïau o ddefnyddiau neu gyfleon marchnata eraill. Ond mae’r angen yn dal i fodoli i ddod o hyd i ariannu digonol i gefnogi gwasanaethau sydd, o reidrwydd, yn rhad mewn safleoedd crai.

11. Yn draddodiadol dibenion academaidd ac ymchwil oedd prif ddefnydd y Llyfrgell. Wrth iddi symud yn nes tuag at yr agenda ehangach yn ‘Cynllun i Gymru 2001’ mae’r grŏp o fudd-ddeiliaid sy’n ennill o wasanaethau’r Llyfrgell yn fwy fwy amrywiol ac mae hyn yn ei gwneud yn fwy anodd i adnabod y grŏp llawn o rai sy’n ennill. Mae dargyfeirio hefyd yn cefnogi polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ac mae’n debygol y gallai’r polisi hwn gael ei rwystro trwy godi tâl mynediad i wybodaeth.

12. Os oes cyllido sylweddol i’w ddefnyddio er mwyn cynnal a chadw casgliadau a darparu gwasanaeth, mae’n anodd gweld sut y gall y rhan fwyaf o’r arian ddod o unrhyw ffynhonnell ar wahân i un gyhoeddus. Mae nifer o fodelau: Cymorth-mewn-Grant (LlGC a’r Llyfrgell Brydeinig) a thrwy gyllidebau HE (Llyfrgell Bodleian a Llyfrgell Prifysgol Caergrawnt) sydd i gyd yn dod i’r un peth yn y pen draw. Mae peth lle i ddatblygu cyllido ar y cyd (mae AGSSC yn enghraifft dda) a chyfle ychwanegol i godi arian allanol (e.e. cyllid preifat trwy gymynroddion a gwerth ychwanegol a gweithgareddau marchnata) ond ni fydd unrhyw un o’r rhain yn osgoi’r angen am ariannu cyhoeddus sylweddol.

13. Rydyn ni felly’n casglu mai trwy gyllid preifat y ceir cyllid allweddol.

**A yw felly'n ymarferol i roi cymhorthdal i ddefnyddwyr gwasanaethau yn hytrach na 'darparwr Llyfrgell'?**

14. Yn ymarferol mae adnabod defnyddwyr yn mynd yn fwyfwy cymhleth wrth i'r rhychwant a'r nifer o'r mathau o ddefnyddiau ehangu. Mae'n enwedig o anodd mewn byd electronig lle mae'r gallu i gysylltu â'r rhyngrwyd yn allweddol - sut mae gwahaniaethu rhwng creu'r wybodaeth am gatalog a'r defnydd o'r wybodaeth ei hun? Mae'n debygol y byddai'r ffordd yma o ariannu'n hynod niweidiol mewn amgylchedd lle mae gan y Llyfrgell a'r Cynulliad ddiddordeb mewn hyrwyddo defnyddio ac ehangu'r gwasanaethau. Gallai gweinyddu hefyd fod yn gymhleth iawn.

15. Yn yr achos yma nid ydym yn meddwl y byddai cymhorthdal gan ddefnyddwyr yn ddewis ymarferol.

**Sut y gellid ariannu 'darparwr Llyfrgell'?**

1. **Rhoi cymhorthdal i nifer o ddarparwyr.**

16. O dderbyn bodolaeth y ddarpariaeth safle unigol yn Aberystwyth gyda'r cyfleusterau a'r sgiliau angenrheidiol i reoli darpariaeth gwasanaeth a gofalu ar ôl casgliadau, mae'r tebygolrwydd o ystyried y syniad o nifer o ddarparwyr lluosog i fod yn gynnig ymarferol yn fychan. O safbwynt economaidd mae symud rhannau sylweddol o'r swyddogaeth yn debygol o fod yn gostus. Mae hefyd yn amgylchedd lle mae angen i strategaethau (e.e. casglu, TGC, digideiddio) gael eu cydlynu a byddai hyn yn anodd gyda nifer o ddarparwyr.

17. Dydyn ni ddim yn ystyried fod yr opsiwn yma'n ddeniadol.

2. **Rhoi cymhorthdal i'r Llyfrgell Genedlaethol i ddarparu gwasanaeth (status quo)**

18. Mae aelodau'r Pwyllgor yn tynnu sylw at y ffaith fod y sgiliau angenrheidiol wedi eu casglu'n barod yn y Llyfrgell. Mae'r staff hefyd yn teimlo fod y casgliad yma o sgiliau yn gryfder allweddol yn y Llyfrgell. Mae aelodau'r Cyngor hefyd yn pwysleisio fod y Llyfrgell, gydag ail-strwythuro o'r tu ôl iddo, yn gryf i symud ymlaen mewn amrywiaeth o ffyrdd. Un o'r amodau wrth greu'r Llyfrgell oedd y dylai gael ei lleoli yn Aberystwyth ac mae'n dal i fod wedi ei lleoli wrth wraidd celfyddyd Gymreig. Mae hyn yn bwysig gan fod elfen gref o Gymreictod yn graidd iddi - cryfder a gydnabuwyd gan y staff ac roedd mewn cysylltiad mwy clos gyda'i chymuned na llyfrgelloedd Cenedlaethol ac adnau cyfreithiol yn y DU.

19. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn edrych am ymateb i'w agenda i Gymru - mae'n debygol o fod yn haws i ddylanwadu ar newidiadau i flaenoriaethau oddi fewn i sefydliad unigol sy'n gyfrifol am yr holl gasgliadau y bydd y gwasanaeth hwnnw wedi ei seilio arnyn nhw

20. Yn olaf mae'r Llyfrgell wedi gwthio agenda sylweddol newydd ers 1999. Mae lefel y partneriaethau a chydweithio wedi tyfu ac, hyd yn oed os oes rhai mentrau hyd yma yn dal heb orffen eu gwaith, mae wedi dangos ei fod yn sefydliad sy'n edrych ymlaen a bod ganddo awydd am newid. Er mwyn cyfiawnhau peryglon symud oddi wrth y darparwr presennol byddai angen arddangos gwelliannau sylweddol ac/neu effeithlonrwydd o ganlyniad i'r symud. Ni allwn ddod o hyd i unrhyw dystiolaeth y gellir cyflwyno achos fyddai'n argyhoeddi.

3. **Trosglwyddo swyddogaethau'n uniongyrchol i'r Cynulliad.**

21. Byddai'r opsiwn yma'n creu'r angen am ddileu sail gyfreithiol y Llyfrgell. Gellid gorbwyso atebolrwydd agosach gan y golled o statws hyd braich. Er bod ariannu'r Llyfrgell yn atgyfnerthu'r rhan helaethaf o wariant, mae safle'r Llyfrgell fel elusen yn werthfawr yn nhermau'r dreth ar incwm enillwyd ar gyllid preifat a'i allu i ddenu cyfraniadau a chymynroddion fel sefydliad cenedlaethol sy'n sefyll ar ei ben ei hun. Gallai newid hefyd effeithio gallu'r Llyfrgell i ddenu arian grant sylweddol. Eisoes mae'r memorandwm ariannol yn barod yn gadael lle i fonitro agos ac aml o atebolrwydd a, thrwy rheoli strwythurau cyflog, yn darparu ar gyfer cyfundrefn ariannol dynn. Nid yw'n amlwg sut y byddai hyn yn cael ei wella'n sylweddol trwy amsugno'r swyddogaethau. Hefyd fel corff annibynnol cyfreithiol gall y Llyfrgell fod yn gynt yn cymryd mantais o gyfleon partneriaethau.

22. Mae cefnogaeth i’r egwyddor hyd braich ymhlith atebwyr yn gryf iawn fel mater o egwyddor ac nid oes dadleuon cryf dros symud oddi wrtho.

   - **Argymhelliad:** bod swyddogaethau’r Llyfrgell yn cael eu cadw fel corff unigol gaiff ei ariannu trwy CCNC.

Ond, rhaid ystyried sut y gall y Llyfrgell ddarparu hyn yn y ffordd orau.

**Pa opsiynau am newid allai fod o fudd i’r Llyfrgell?**

1. **Adolygiad o orgyffyrddiadau**

**Amgueddfa Genedlaethol Cymru**

23. Y sefydliad amlwg i edrych arno yw Amgueddfa ac Orielau Cenedlaethol Cymru. Trafodwyd mater gorgyffyrddiadau potensial mewn casgliadau yn 6.2 uchod, a daethpwyd i’r casgliad fod y gorgyffyrddiadau’n fach mewn gwirionedd a bod casgliadau’r Llyfrgell yn chwarae rhan yn ei allu i lwyfannu arddangosfeydd. A chymryd bod y cydweithio’n parhau mewn cysylltiad â chaffael ni allwn weld unrhyw broblem yma. Mae nifer o weithgareddau craidd yr Amgueddfa a’r Llyfrgell yn hollol wahanol ac yn gofyn am sgiliau gwahanol. Mae peth cydweithio ym maes cadw ac mae’r Llyfrgell, gan ei bod yn cynnal y prosiect ‘Casglu’r Tlysau’ wedi dangos fod ganddi’r sgiliau craidd sy’n gallu meithrin amgylchfyd celfyddyd gain.

24. Dydyn ni ddim yn credu fod i gyfuno’r sefydliadau neu symud swyddogaethau arbennig unrhyw deilyngdod. Er hyn, mae un maes lle y credwn y gallai gweithio’n agos dalu ar ei ganfed. Mae’r Llyfrgell wedi profi cryn broblemau yn cael y proffil mae’n ei haeddu. Fe fydd creu’r Profiad i Ymwelwyr a phosibiliadau ymestyn allan digideiddio a darpariaeth y rhyngrwyd yn gymorth i wrthsefyll hyn. Ond nid yw’r Llyfrgell na’r Amgueddfa wedi cydnabod yr angen am arbenigedd marchnata ar lefel Tîm y Rheolwyr Hþn. A chymryd hyn i ystyriaeth, o’r holl gyrff celfyddydol yng Nghymru, maen nhw mewn sefyllfa arbennig i allu estyn allan i’r gymdeithas; rydym yn cael hyn yn rhyfedd.

25. Mae gan y ddau sefydliad gasgliadau sylweddol, o safon uchel a all ffurfio sail arddangosfeydd sefydlog a theithiol. Mae gan y ddwy rôl botensial i’w chwarae mewn ymestyn allan yn addysgol. Mae’r ddau sefydliad yn gweithio ar agenda newydd sy’n golygu denu rhai i gymryd rhan **a** gweithio’n gynyddol gyda chymdeithasau yng Nghymru. Hefyd mae’r potensial ar gael i ddefnyddio technoleg a noddwyd gan y Llyfrgell i wella profiadau yn safleoedd yr Amgueddfeydd Cenedlaethol. Mae rhywfaint cyfyngedig o ddefnydd ar hyn o bryd yn cael eu benthyg rhwng y Llyfrgell a’r Amgueddfa, ond mae cyfle i ddefnyddio’r casgliadau’n fwy effeithiol ar y cyd ar gyfer pwrpasau sy’n ymestyn allan.

26. Byddai’r Llyfrgell yn ei chael yn anodd i ddenu ymgeisydd hþn gyda’r sgiliau marchnata cywir i wthio’i agenda ymestyn allan, yn rhannol oherwydd lleoliad ac yn rhannol oherwydd y cyfle cyfyng sydd ar gael o sail Llyfrgell-yn-unig. Petai’r ddau sefydliad yn gweithio gyda’i gilydd yn y maes yma gallai agenda fyddai’n cynnwys Cymru gyfan ddenu ymgeiswyr o safon uchel. Gallai incwm allanol ychwanegol hefyd gael ei gynhyrchu.

**Argymhelliad:** Bod y Llyfrgell Genedlaethol a’r Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru yn ymchwilio i’r posibilrwydd o ymgymryd ag apwyntiad ar y cyd gyda’r ddau dîm rheoli’n gwthio’r agenda ymestyn allan.

**CADW**

27. Mae CADW’n rheoli safleoedd archeolegol sefydlog ar draws Cymru. Mae hwn yn weithgaredd arbenigol yn cyfuno safleoedd cyfyngedig a allai fod yn addas ar gyfer cydweithio gyda’r Llyfrgell. Ni allwn weld unrhyw resymau strategol i ddod â’r sefydliadau’n nes at ei gilydd.

**Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru**

28. Mae gan y Comisiwn rôl mewn gwneud arolwg a chofnodi safleoedd archeolegol a hanesyddol yng Nghymru ac mewn darparu mynediad i'r archif grëwyd fel hyn i ymchwilwyr, aelodau'r cyhoedd, sefydliadau masnachol ac ati. Mae iddi chwaer gorff yn yr Alban. Cafodd ei chwaer gorff yn Lloegr ei gyfuno a Treftadaeth Lloegr ym 1999. Mae'r Comisiwn yn curadu ei archif yn Aberystwyth mewn cyfleusterau wedi eu creu'n arbennig tua milltir o Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae ei gyfleusterau'n cynnwys nodweddion megis storfeydd oer sydd hefyd i'w cael yn y Llyfrgell. Mae nifer o'i broblemau archifo, gwasanaeth i ddarllenwyr a mynediad i'r rhyngrwyd yn debyg iawn i rai'r Llyfrgell. Mae hefyd diddordeb potensial sylweddol i ddefnyddwyr yr archif yng nghasgliadau'r Llyfrgell, yn enwedig y casgliadau hynod o gartograffau a ffotograffau.

29. Rydym wedi siarad â Martin Rolph, y swyddog yn y Cynulliad, sydd newydd ddechrau cynnal arolwg pum mlynedd o'r Comisiwn Brenhinol. Rydyn ni'n ystyried, yn ddibynnol ar gasgliadau arolwg y Comisiwn Brenhinol, bod yna, ar yr olwg gyntaf, achos cryf i uno gyda'r Llyfrgell ei weithgareddau'n ymwneud â hwylustod cael at ddefnyddiau, rhedeg yr Archif, darpariaeth gwasanaethau i ddarllenwyr, catalogio a darparu mynediad o bell i ddefnyddiau trwy gyfrwng y rhyngrwyd a digideiddio. Er hynny, mae'n amlwg fod polisi casgliadau'n wahanol, ac efallai y byddai angen i'r swyddogaeth hyn fod yn annibynnol o'r Llyfrgell.

**Argymhelliad.** Dylai arolwg pum mlynedd o'r Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru roi ystyriaeth i fanteision ac anfanteision uno gweithrediadau archif y Cynulliad gyda rhai'r Llyfrgell, yn cynnwys swyddogaethau allweddol catalogio a mynediad perthnasol o bell.

**Y Cynulliad**

30. Mae'r Cynulliad yn rhedeg ei wasanaeth llyfrgell ei hun ac fe fydd angen rhoi sylw i fater archifo cofnodion y Cynulliad. Mae dau bosibilrwydd yn bodoli yma:

- A oes achos da dros drosglwyddo gwasanaeth llyfrgell y Cynulliad i'r Llyfrgell Genedlaethol o dan gytundeb lefel gwasanaeth? Mae i'r llyfrgell dair prif adran â phedair swyddogaeth allweddol.
  - Trosglwyddwyd archif y llyfrgell ym Mharc Cathays o'r Swyddfa Gymreig ac ynghþd â pholisi casglu gwahanol, nid yw'n wahanol iawn i weithgareddau archifo a gwasanaethau i ddarllenwyr gaiff eu gwneud gan y llyfrgell.
  - Mae'r gwasanaeth archif sydd yng Nglanfa'r Iwerydd yn gwasanaethu anghenion Aelodau'r Cynulliad yn llwyr. Dim ond un o'r ffynonellau y mae'n ei ddefnyddio i gael defnyddiau yw casgliad Parc Cathays - nid oes gweithredu tebyg yn y Llyfrgell, gan fod ei ymchwil academaidd o fath gwahanol hollol.
  - Rheoli'r contract ar gyfer recordio a dosbarthu darllediadau sesiynau'r Cynulliad - mae hyn yn hollol wahanol i unrhyw beth wneir yn y Llyfrgell.
  - Cyngor ar ddethol a chadw defnyddiau archif o ddarllediadau - yma ceir adleisiau pendant o'r swyddogaethau a gwblheir gan AGSSC yn y Llyfrgell.
- A oes rhan i'r Llyfrgell Genedlaethol yn nhermau cartrefu cofnodion cyhoeddus i Gymru? Beth fydd pen draw'r daith i gofnodion cyhoeddus Cymreig sydd, yn draddodiadol, wedi eu cadw yn y Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus yn Llundain?

**Argymhellion:**

  - Dylai'r Cynulliad brofi gwerth rhedeg ei wasanaeth llyfrgell ei hun yn Cathays trwy wahodd y Llyfrgell Genedlaethol i i wneud cynnig yn erbyn CLG (er ein bod yn awgrymu blaenoriaeth isel i'r pwynt yma).
  - Argymhellir bod Llyfrgell y Cynulliad yn trafod archifo deunydd darllediadau'r Cynulliad gyda AGSSC yn nhermau dewis, storio a'r dull parhaus i gael mynediad i'r fformatau presennol.
  - Y Cynulliad i ddarganfod a chynghori unrhyw rôl botensial i'r Llyfrgell mewn archifo cofnodion cyhoeddus yng Nghymru.

2. **Diwygio Strwythur Llywodraeth y Llyfrgell**

30. Nid oes gan unrhyw lyfrgell adnau cyfreithiol yn y DU na thramor strwythur tebyg i LGC. Mae bron yn union yr un fath â strwythur Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru. Mae strwythurau'r Llys a'r Cyngor yn fwy dyledus i'r model yr adeiladwyd nifer o ganolfannau addysg uwch arni nag ar ofynion llywodraeth

yn yr unfed ganrif ar hugain. Cyn trafod sefyllfa’r Llyfrgell mae’n werth edrych ar arfer da.

**Arfer Dda**

31. Yn draddodiadol roedd nifer o bobl gâi eu hapwyntio i Gynghorau cyrff cyhoeddus yn chwarae rôl fygedol i raddau helaeth (nid yw hyn yn wir yn achos y Llyfrgell). Mae arfer modern wedi tueddu i symud oddi wrth y sefyllfa yma, yn enwedig gan fod y Comisiwn Elusennau wedi mynd i gryn drafferth i nodi’r cyfrifoldebau sydd â’r potensial i fod yn feichus fyddai’n dod i ran y rhai sy’n gwasanaethu ar fyrddau sefydliadau gaiff eu cyfrif yn elusennau.

32. Mae’r angen ymddangosiadol am gael aelodau wedi eu hysbysu’n drwyadl ar Fyrddau neu Gynghorau wedi canolbwyntio sylw ar yr hyn yw’r terfyn ymarferol ar nifer yr aelodau hynny sydd eu hangen er mwyn cyrraedd y nod yma. Fel datblygiad cyffredinol mae’r gofid hyn wedi arwain at leihau nifer yr aelodau er mwyn creu tîm o faint mwy hylaw o weithwyr. Mae hyn yn bwysig mewn byd lle na all aelodau wadu cyfrifoldeb am ddatblygiadau oherwydd nad ydyn nhw’n ymwneud â maes arbenigedd yr aelod arbennig hwnnw. Yr un pryd mae’r un sefydliadau wedi bod yn ofalus i nodi’r amrywiol sgiliau sydd eu hangen i sicrhau fod etholiadau aelodau newydd yn cadw cydbwysedd da o’r sgiliau yma.

33. Rydyn ni wedi gwneud cymhariaeth o aelodaeth Cyngor y Llyfrgell gyda chyrff celfyddydol eraill o bwys yn atodiad 4 (yn gyffredinol yn y rhychwant 11-15). Mae cyfansoddiad Cyngor y Llyfrgell, wrth gwrs, yn debyg iawn i un Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, ond mae’r ddau sefydliad hyn yn edrych yn sylweddol wahanol i gyrff celfyddydol eraill. Byddai ymestyn y dadansoddiad hyn ymhellach i’r sector preifat trwy edrych ar gyrff cyhoeddus an-adrannol yn dangos sefyllfa debyg ond gyda llai eto o aelodau’r Bwrdd ar gyfartaledd.
34. Mae lleihau’r strwythurau, ynghyd ag amlder cynyddol o gyfarfodydd y Bwrdd neu’r Cyngor, wedi lleihau’r cyfanswm o waith sydd angen ei arwain trwy strwythur is-bwyllgor. Mae hefyd yn sicrhau hyd yn oed mwy o ymwybyddiaeth ymhlith aelodau’r Bwrdd heb ofyn am fwy o ymrwymiad amser gan yr aelodau (fel arfer Ymddiriedolwyr na chânt eu talu). O ganlyniad mae strwythurau pwyllgorau’r Bwrdd oddi fewn i sefydliadau’n newid. Gall bod llai o ffocws i’r lefel o sylw roddir i oruchwilio materion gweithredol trwy bwyllgorau. Ar y llaw arall mae’r datblygiadau mewn Llywodraeth Gorfforaethol dros y 10 mlynedd diwethaf wedi rhoi mwy o bwyslais ar gyfrifoldebau Llywodraethol y Cyfarwyddwyr anweithredol.
35. Mae’r arfer gorau modern, fel y’i cynrychiolir gan gwmniau ddyfynwyd yn gyhoeddus, yn pwysleisio rôl y **pwyllgor archwilio,** gan fod ei rôl wedi ei ymestyn yn arbennig i gymryd i ystyriaeth asesiadau risg a gwblheir i ateb gofynion adoroddiad Turnbull. Ei gyfrifoldebau craidd yw:

    - I ystyried mewn dyfnder oblygiadau cyfrifon a gyhoeddwyd, yn enwedig wrth gymhwyso polisiau cyfrifo a pholisi’r corff yn nhermau cyflawni darpariaethau a chronfeydd wrth gefn.
    - I ystyried sylwadau’r archwilwyr allanol ac i sicrhau fod y rheolwyr gweithredol yn cymryd camau iroi sylw i wendidau a nodwyd ac i sicrhau cydymffurfiaeth â’r Ddeddf Cwmniau a safonau cyfrifo.
    - I wneud asesiad, wedi ei seilio ar asesiadau risg ac adroddiadau archwilio allanol, o beth yw’r blaenoriaethau ar gyfer archwiliad mewnol ac unrhyw gamau angenrheidiol eraill i liniaru risg. I ystyried adroddiadau’r uned awdit fewnol a sicrhau gweithredu ar unrhyw wendidau gaiff eu darganfod.

36. Yn ogystal â hyn caiff dau bwyllgor arall eu hystyried yn bwysig wrth gwrdd ag anghenion llywodraethol:

    - Mae angen **pwyllgor enwebu** i oruchwylio etholiad aelodau newydd i’r Bwrdd, i sicrhau fod yr egwyddorion a nodir gan Bwyllgor Nolan wedi cael eu parchu, i sicrhau chwilio digonol am bartion sydd â chymwysterau addas ac sydd â diddordeb ynghyd â phroses benodi tryloyw sydd â chysylltiadau annibynnol.
    - Mae **pwyllgor taliadau** yn ystyried materion tryloywder a thegwch mewn perthynas â’r gwobrau i weithwyr ac yn enwedig yn achos staff hþn yn erbyn eu llwyddiannau.
    - Mae rhai cyrff wedi ychwanegu pwyllgor llywodraethu sy’n canolbwyntio ar effeithlonrwydd y bwrdd, anghenion hyfforddiant, cwrdd ag amserlenni, llifiant gwybodaeth ac ati. Fyddai nifer o gyrff llai ddim, o angenrheidrwydd, yn ystyried bod hyn yn ychwanegu gwerth digonol i ymdrechion y prif Fwrdd neu’r Cyngor.

37. Mae strwythur pwyllgor sefydlog y Llyfrgell Brydeinig yn cynnwys pwyllgor archwilio, pwyllgor taliadau, pwyllgor cyllid a chynllunio a phwyllgor

buddsoddiadau. Ar hyn o bryd mae ynghanol camau cychwynnol arolygiad llywodraethol, ac mae'r gwaith cychwynnol yn cydnabod strwythur y pwyllgorau ddefnyddir i gwrdd â gofynion arfer da (fel a ddisgrifiwyd yn 6.35 a 6.36 uchod)

1. Mae strwythurau dwy siambr, fel y'u cynrychiolir gan y Cyngor a'r Llys yn achos y Llyfrgell yn hynod brin. Arwahan i Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru yr unig enghraifft glir arall yn y parthau cyhoeddus yw NAAFI. Mae iddi Fwrdd a reolir gan aelodau anweithredol sy'n atebol i Gyngor o aelodau hþn y lluoedd arfog. Er hyn, mae cysylltiad uniongyrchol yma gan fod NAAFI yn darparu gwasanaethau lles ac ariannu cymdeithasol i ddynion a merched y gwasanaethau a gynrychiolir gan y grðp yma o bobl mewn ffordd uniongyrchol a sylweddol iawn.

**Y Llys**

39. Rydym wedi derbyn cynrychiolaeth gref gan Swyddogion ac aelodau'r Cyngor yn mynegi fod y Llys yn tanlinellu annibyniaeth y Llyfrgell trwy ddarparu etholiad annibynnol ar gyfer swyddogion ac aelodau, ac yn enwedig y Llywydd (sydd, yn amlwg, yn benodiad allweddol yn nhermau cynnal trefn lywodraethol a safle'r Llyfrgell). Ynghyd â'r enwebiadau o Llywodraeth Cynulliad Cymru maen nhw wedyn yn ffurfio craidd y Cyngor sy'n mynd ymlaen i gyfethol aelodau ychwanegol ar gyfer y Cyngor. Dywedir hefyd fod aelodau'r Llys yn "Lysgenhadon" ar ran y Llyfrgell. Oherwydd proffil isel cydnabyddedig y Llyfrgell mae'n anodd asesu unrhyw effaith bositif gaiff y rôl hon. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith, yn absenoldeb y Llys, y byddai'n rhaid dyfeisio ffordd arall o ethol swyddogion. Mewn achosion eraill caiff hyn ei gyflawni trwy ganiatáu pwerau enwebu i gyrff â diddordeb yng ngwaith y sefydliad, yn amodol ar gwrdd â safonau Pwyllgor Nolan a chynnal y cydbwysedd sgiliau angenrheidiol.

1. Mae'r Cyngor yn aildrefnu gweithgareddau ei Bwyllgor Enwebu er mwyn sicrhau fod recriwtio aelodau newydd i'r Llys a'r Cyngor yn gyson ag egwyddorion Pwyllgor Nolan.
2. Mae'n werth nodi barn un atebwr cytbwys am strwythur y Llys a'r Cyngor: "Mae'n gryfder fod cyrff addysgol a chelfyddydol â chynrychiolwyr ar y Cyngor a'r Llys ond mae hyn yn arwain at y perygl fod gan y cynrychiolwyr yma ddim ond ychydig ddiddordeb yn, neu wybodaeth am, waith a photensial LlGC ar gyfer eu sefydliadau nhw. Mae aelodau'r Llyfrgell yn teimlo na allan nhw ddylanwadu ar bolisi. Felly, nid yw'r strwythur rheoli na'r gynrychiolaeth yn cael eu defnyddio i'r eithaf gan nad yw sefydliadau'n teimlo'n rhan o waith LlGC ac mae'r hyn ddylai alluogi deialog yn aneffeithiol". Mae atebwr arall yn ychwanegu: "Mae aelodaeth y Cyngor a'r Llys yn adlewyrchu'r sefyllfa hanesyddol ac nid y presennol ac mae'n anhylaw ei faint". Tra daeth cefnogaeth i'r Llys o du cyn-aelodau, cafodd hyn ei wrthbwyso gan farn hollol wahanol: " All y Llys ond ystyried buddiannau'r lleygwr ar y gorau, a dim ond unwaith y flwyddyn maen nhw'n cwrdd sy'n gwneud iddyn nhw ymddangos yn anghysbell".
3. Mae'r ymatebion yma'n cefnogi'r farn fod y Llys yn gymharol aneffeithiol fel ffordd o ddylanwadu ar ddatblygiad gwasanaethau'r Llyfrgell. Ar y gorau nid yw ei ymrwymiad yn ddigon i wneud gwahaniaeth. Er y gall aelodau unigol o'r Llys wneud ymdrechion sylweddol ar ran y Llyfrgell, mae ei berthnasedd fel codwr proffil gweithgareddau'r Llyfrgell yn debygol o barhau i fod yn amherthnasol. Mae'r dystiolaeth i gyd yn awgrymu bod y partneriaethau a'r cyfathrebu mwyaf effeithiol wedi eu datblygu ar lefelau gweithredol yn hytrach nag anweithredol. Heb amheuaeth mae potensial i fynd â'r broses hon dipyn ymhellach, er enghraifft, trwy ddatblygu paneli wedi eu sefydlu'n lleol ar draws Cymru. Mae'n bosib y gellid defnyddio'r Llys yn fwy effeithiol yn y cyswllt hwn ond mae'r Cyngor yn debygol o fod yn hapusach yn cefnogi Tîm y Rheolwyr Hþn wrth iddyn nhw ddatblygu rhwydweithiau effeithiol gyda gweithwyr mewn Addysg Uwch, ysgolion, llyfrgelloedd cyhoeddus, awdurdodau lleol a chyrff celfyddydol. Wedi ei seilio ar ymateb i'r arolwg gwelir bod awydd am fecanwaith mwy sylfaenol i hwyluso cysylltu â'r Llyfrgell.
4. Ar wahân i rôl 'llysgenhadol' y Llys ei swyddogaethau allweddol parhaol yw ethol Swyddogion a darparu cronfa o'r lle yr etholir aelodau'r Cyngor. Mae dewisiadau clir eraill er mwyn cyrraedd y nôd ac mae'n amheus a yw cyfyngu'r gronfa ar gyfer dewis fel hyn yn cyd-fynd ag ysbryd egwyddorion Pwyllgor Nolan. Wrth gydbwyso, felly, rydym o'r farn nad yw'r Llys fel sefydliad yn gwasanaethu buddiannau tymor hir gorau'r Llyfrgell a dylid darganfod dulliau gwahanol i gyflawni ei swyddogaethau.

**Argymhelliad:** Dylid chwilio am ffyrdd i ddiddymu'r Llys a darganfod dulliau eraill i gyflawni ei swyddogaethau.

**Y Cyngor**

44. Mewn lleoedd eraill mae sefydliadau celfyddydol tebyg wedi llunio Byrddau o Ymddiriedolwyr i lywodraethu arnyn nhw. Mae egwyddorion Nolan wedi eu

hymgorffori mewn proses dryloyw o apwyntio Cadeirydd/Llywydd y sefydliadau hyn, gan olygu hysbysebu'r roliau'n gyhoeddus. Mae rhai atebwyr wedi dweud eu bod yn credu y byddai'r fath broses yn rhwystro rhai ymgeiswyr o ansawdd da. Er bod hyn bron yn sicr o fod yn wir, mae'r broses sydd eisoes yn bodoli bron yn sicr o wahardd rhai ymgeiswyr hefyd, ac mae'n anodd gweld sut y gellid cyfiawnhau parhau â'r drefn bresennol fel arfer da mewn bywyd cyhoeddus.

- **Argymhelliad:** Mae'r Llyfrgell wedi cynllunio trefn ar gyfer ethol Swyddogion y Cyngor ar seiliau sy'n cytuno ag arfer da. Mae Cyngor Enwebu'r Cyngor yn gwneud y trefniadau terfynol a dylai'r rhain gael eu cwblhau cyn gynted â phosibl

45. Ar hyn o bryd mae 21 o aelodau ar y Cyngor, wedi eu tynnu o wahanol gefndiroedd. maen nhw'n ymddiriedolwyr yr elusen yn ogystal ag aelodau'r Cyngor. Maen nhw'n gweithio'n ddi-dâl, yn gweithio ar sail costau'n unig, ac maen nhw'n rhoi'n hael o'u hamser i'r Llyfrgell. Caiff ei gydnabod gan aelodau'r Cyngor fod lle i dargedu sgiliau aelodau'r Cyngor yn fwy penodol. Ar adeg yr ymgynghoriad, er enghraifft, doedd dim un o'r aelodau'n dal i fod yn ymwneud yn ymarferol â masnach, marchnata na rheoli prosiect.

1. Y mater sylfaenol yma yw pa strwythur rheolaeth fyddai'n ateb buddiannau'r Llyfrgell orau. Mae nifer o aelodau wedi sôn Am bwysigrwydd yr ethos Cymraeg a phwysigrwydd rhwydweithio mewn gwlad o 2.8m o bobl - felly'r pwyslais ar gynrychiolaeth eang. Ar y llaw arall gallai proffil parhaol isel y Llyfrgell awgrymu nad yw'r dulliau neu lefelau'r rhwydweithio mor effeithiol ag y gallen nhw fod, ac mai nid cynrychiolaeth gref ar lefel y Cyngor yw'r ffordd orau o ddarparu canlyniad dymunol mewn cysylltiad â chreu proffil uwch.
2. Mae aelodau'r Cyngor wedi nodi fod gwaith effeithiol y Llyfrgell yn digwydd mewn nifer o Bwyllgorau. Canlyniad ymarferol hyn yw nad yw'r Cyngor yn gweithio fel Bwrdd yn ymdrin a holl weithgareddau'r Llyfrgell ar y lefel o fanylder sy'n datblygu gradd ddigonol o ddeallusrwydd cyffredinol i gwrdd ag ymarfer da fel y'i disgrifir uchod. Yn wir, fe fyddai'n anodd cyflawni hyn mewn corff mor fawr - mae'n anodd iawn i grwp mor gynrychioladol i weithredu'n effeithiol fel Bwrdd anweithredol. Y mater dan sylw yw addasrwydd y strwythur ac yn bendant, nid ymrwymiad aelodau'r Cyngor
3. Mae'r Llyfrgell yn fudiad sydd, a chynnwys cyfalaf, wedi gwario tua £10m. Nid yw'n sefydliad mawr. Mae strwythur y pwyllgor sy'n goruchwylio materion yn mynd â chryn amser, nid yn unig i'r aelodau ond hefyd i'r Ysgrifenyddiaeth sy'n eu cefnogi. Mae hefyd yn mynnu amser y gweithredwyr hþn sydd eisoes ynghlwm mewn nifer o grwpiau gweithredol sy'n rheoli rhaglenni newid oddi fewn i'r llyfrgell. Dewis arall synhwyrol fyddai cynyddu amledd cyfarfodydd y Cyngor ar sail fisol gyda sail aelodaeth yr ymddiriedolwyr yn ddim mwy na deuddeg - yn fwy cyson â'r sefydliadau yn atodiad 4 ( a chymryd maint cymharol y Llyfrgell). Gallai'r rhan fwyaf o'r pwyllgorau sefydlog, ag eithrio'r Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Enwebiadau, ac agweddau taliadau'r Pwyllgor Staffio gael eu diddymu, gyda materion yn dod o flaen pwyllgor y Cyngor yn amlach. Fe fyddai'r aelodau i gyd yn fwy gwybodus am holl amrywiaeth y materion sy'n effeithio ar y Llyfrgell ac fe fyddai'r angen am i Bwyllgor Brys eistedd mewn argyfwng yn diflannu'n llwyr bron.
4. Byddai angen grwp prosiect neu grwp llywio i reoli gofynion arbennig, megis adeiladu'r Profiad i Ymwelwyr. Gellid gofyn i aelodau'r Cyngor â sgiliau perthnasol weithio ar y fath grwpiau, gâi eu diddymu pan na fyddai eu hangen mwyach.
5. Wrth gasglu nad defnyddio'r strwythur Rheolaeth yw'r ffordd fwyaf effeithiol i lwyddo i ymestyn allan yn effeithiol, mae'r angen i wynebu'r mater yn dal i fodoli. Byddai angen i'r Llyfrgell ddarganfod ffyrdd mwy effeithiol o rwydweithio gyda grwpiau targed ymestyn allan pwysig fel ysgolion a llywodraeth leol, ac i gadw mewn cysylltiad â defnyddwyr pwysig traddodiadol. Un o'r materion gafodd gryn sylw wrth ymgynghori â staff oedd yr angen i dargedu anghenion academaidd yn fwy agos - ac mae hwn yn faes lle mae'r Llyfrgell yn cael ei gyfri'n gymharol flaenllaw.

- **Argymhelliad:** Dylai'r Llyfrgell a Llywodraeth Cynulliad Cymru drafod moderneiddio strwythur rheolaeth y Llyfrgell gyda'r bwriad o wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yn seiliedig ar Fyrddau Ymddiriedolwyr sydd yn gweithredu mewn mannau eraill. Derbynnir y byddai'r fath newidiadau yn cymryd amser sylweddol i'w gwireddu ond ddylen nhw ddim, yn y pen draw, fygwth un ai'r egwyddor hyd braich na statws elusennol y Llyfrgell. Gwnaed yn glir y dylai aelodau'r Cyngor i gyd fod â chariad tuag at ddysgu - dydyn ni ddim yn gweld unrhyw angen i gyfaddawdu ar hyn wrth newid y strwythur.

51. Mae unrhyw gorff fyddai'n dilyn y Cyngor presennol yn fater i'r Llyfrgell a'i ymgynghorwyr. Er bod ffurf y fath gorff y tu hwnt i gwmpas yr arolwg hwn, mae rhai nodweddion y dylid eu cynnwys:

- Llwyddo i greu strwythur mwy cryno i'r Cyngor gan ddefnyddio, dyweder, tua deuddeg aelod.
- Cydymffurfio gydag egwyddorion Pwyllgor Nolan yngln ag apwyntiad aelodau'r Cyngor (hysbysebu swyddi gwag / trefn apwyntio teg a thryloyw / mewnbwn annibynnol)

- Proses annibynnol i apwyntio aelodau i’r Pwyllgor. Byddai angen i hyn olygu fod cynrychiolwyr nifer o gyrff enwebedig o Gymru yn ymwneud â hyn, yn ddelfrydol wedi eu dewis o amrywiaeth eang o gyrff addysgol, celfyddydol, masnachol a chymdeithasol. Mae nifer o ffyrdd y gellid effeithio arnyn nhw.
- Dadansoddiad clir o’r cymysgedd sgiliau fyddai eu hangen ar y Cyngor i gwrdd ag anghenion y Llyfrgell a rheolaeth weithredol o apwyntiadau i gwrdd aâââ ’r anghenion hynny.
- Gweithredu ar ran y Comisiwn Elusennau wrth ddelio ag unrhyw newidiadau strwythurol.

3. **Gwella tryloywder yn absenoldeb aildrefnu.**

52. P’run ai yw’r awgrym yn 2 uchod yn cael ei ddatblygu ai peidio, roedd angen mwy o dryloywder oddi fewn i’r strwythur presennol i gwrdd ag egwyddorion Nolan. Mae hyn yn golygu hysbysebu swyddi a sefydlu proses asesu a chyfweld deg a gwrthrychol. Mae hefyd yn cynnwys ystyried talu aelodau, o dan reolau’r Comisiwn Elusennau, a fyddai, fel arall, yn methu â gwasanaethu. Mae’r Cyngor wedi gweithredu i roi yn eu lle ddulliau enwebu sy’n cydymffurfio â gofynion comisiwn Nolan ac mae’r dod â threfniadau i ben trwy’r Pwyllgor Enwebu.

**ATODIAD 1**

**CYMARYDDION LLYFRGELLOEDD CENEDLAETHOL**

2000-2001 onibai y nodir yn wahanol

| | **CYMRU**<br><br>**Llyfrgell Genedlaethol Cymru** | **YR ALBAN**<br><br>**Llyfrgell Genedlaethol yr Alban** |
|---|---|---|
| **Poblogaeth** | 2.9m | 5.1m |
| **Lleoliad/**<br><br>**adeiladau** | Aberystwyth | Caeredin |
| **Atebolrwydd** | Cynulliad Cenedlaethol Cymru | Corff Cyhoeddus Anadrannol yn derbyn grant cymorth gan Adran Addysg Weithredol yr Alban |

| | | |
|---|---|---|
| **Corff Llywodraethol** | 1. Llys y Llywodraethwyr: 50 aelod yn cynrychioli:<br><br>• AS/ Y Cynulliad Cenedlaethol - 8<br>• Prifysgolion - 9<br>• Colegau - 1<br>• Addysg - 1<br>• Y sector Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth - 3<br>• Awdurdodau Lleol - 7<br>• Cyngor Llyfrau Cymraeg -1<br>• Celfyddydau/ Amgueddfeydd - 3<br>• CBI (Cymru) - 1<br>• Undebau Llafur - 1<br>• Cymdeithas Addysg y Gweithwyr - 1<br>• Ffrindiau -1<br>• Swyddogion - 3<br>• Cyfetholedig - 10<br><br>2. Y Cyngor, 19 aelod, wedi eu hapwyntio gan y Llys | Bwrdd yn cynnwys 25 o Ymddiriedolwyr:<br><br>Penodiadau yn rhinwedd eu swyddi - 11<br><br>Y gweddill a benodir gan:<br><br>• Y Goron - 3<br>• Cyfadran yr Adfocadau - 5<br>• Prifysgolion - 4<br>• Awdurdodau Lleol - 1 |
| **Cyfanswm incwm yn cynnwys cyfalaf a grantiau prynu.** | £8.5m | £12.1m |
| **Manylion y cyllid**<br><br>***Costau***<br><br>***gweithredu****<br><br>***Grant***<br><br>***Prynu***<br><br>**Cynnal a**<br><br>**Chadw** | <br><br>£6.6m<br><br><br><br><br><br>£576,000<br><br><br><br>£362,000 (2002/3) | £9.8m<br><br><br><br><br><br>£1m<br><br><br><br>£909,000 |

| | | |
|---|---|---|
| ***Ac eithrio grant prynu & chyfalaf anarferol (e.e. Canolfan Ymwelwyr).** | | |
| **Incwm net** | £200,000 | £46,000 |
| **Swyddogaeth grai** | • I gasglu, cynnal a datblygu'r casgliad cenedlaethol, gan gynnwys casgliad mor gyflawn â phosibl o ddefnyddiau wedi ac heb eu cyhoeddi sy'n berthnasol i Gymru ac i Gymry, y casgliad mwyaf cynhwysfawr ar Ynysoedd Prydain.<br>• I gynnal a chadw'r defnyddiau yn y casgliad<br>• Darparu mynediad i ddefnyddwyr y llyfrgell i'w hadeiladau, casgliadau a gwasanaethau, a gwybodaeth ddigonol amdanyn nhw.<br>• I godi ymwybyddiaeth a rhannu gwybodaeth am gasgliadau'r Llyfrgell.<br>• I gydweithio'n broffesiynol a rhoi arweiniad. | • Ffocws rhyngwladol i gofnodion am yr Alban trwy gasgliadau, cadw a chatalogio gwybodaeth yn ymwneud ag Albanwyr a'r Alban ar draws y byd.<br>• Hybu defnydd a dehongli casgliadau cenedlaethol ac i ysgogi ymwybyddiaeth o wasanaethau'r Llyfrgell.<br>• Adnodd cenedlaethol ar gyfer addysg ac ymchwil i'r dyniaethau a gwasanathau cymdeithasol, ac i gefnogi datblygiad economaidd cenedlaethol trwy ganiatau mynediad i wybodaeth gwyddonol, technegol, amgylcheddol a busnes<br>• I ddarparu arweiniad mewn strategaethau cenedlaethol ar gyfer darparu gwybodaeth<br>• I ddatblygu gwybodaeth, sgiliau ac arbenigedd ymhlith staff y Llyfrgell. |
| **Fformatau a gasglwyd** | • Llyfrau<br>• Cyfresi<br>• Mapiau<br>• Llawysgrifau<br>• Cerddoriaeth<br><br>Defnyddiau clyweled yn cynnwys:<br><br>• Ffilm<br>• Fideo<br><br>Recordiadau sain | • Llyfrau<br>• Cyfresi<br>• Mapiau<br>• Llawysgrifau<br>• 1Cerddoriaeth<br><br>Defnyddiau clyweled yn cynnwys:<br><br>• Ffilm<br>• Fideo |

| | | |
|---|---|---|
| | Paentiadau<br><br>Ffotograffiau<br><br>Printiau, ysgythriadau a lluniau eraill<br><br>Archifau | |
| **Daliannau** | • 4.5m o lyfrau<br>• 40,000 cyfrol o lawysgrifau<br>• 4m o ddogfennau archifol<br>• 1m o fapiau<br>• 750,000 o ffotograffau<br>• 200,000 awr o fideo<br>• 3m troedfedd o ffilm<br>• 150,000 awr o recordiadau sain | • 7-8m o lyfrau<br>• 120,000 cyfrol o lawysgrifau<br>• 1.6m o fapiau |
| ***Defnydd (blynyddol)**<br><br>• **Cyhoeddiadau**<br>• **Cyfanswm holiadau**<br>• **Ymweliadau â'r wefan**<br>• **Ymweliadau gan ddarllenwyr**<br>• **Nifer o ddarllenwyr**<br>• **Cyfanswm y defnyddwyr** | <br><br>76,445<br><br>9,000<br><br>137,400 **9 mis 1-4-2001**<br><br>**- 31-12-2001** (Cywerth Blynyddol 183,000)<br><br>29,000 | 293,000<br><br><br><br>350,000<br><br><br>80,000<br><br><br>542,000 |

| | | |
|---|---|---|
| **SCOLD**<br><br>• **Catalog Llyfrau Blynyddol**<br>• **% o gyfanswm catalogau Prydeinig o dan SCOLD 2000/01** | 2201<br><br><br>21%<br><br>Cymru a phopeth yn ymwneud â Chymru. W-Z o weddill yr eitemau | 2642<br><br><br>25% |
| **Stwythur y Corff** | 4 adran o dan y Llyfrgellydd:<br><br>1 Gwasanaethau casglu<br><br>2 Gwasanaethau cyhoeddus<br><br>3 Gwasanaethau corrfforaethol<br><br>4 Swyddfa'r Llyfrgellydd | 5 adran o dan y Llyfrgellydd:<br><br>1 Gwasanaethau cyhoeddus<br><br>2 Casgliadau arbennig: llyfrau prin, llawysgrifau ac ati<br><br>3 Casgliadau cyffredinol: AC, caffael a chatalog, rheoli casgliadau<br><br>4 Gwasanaethau cyfrifiadurol, adnoddau ar gyfer dysgu yn yr Alban<br><br>5 Gweinyddiaeth, AD, cyllid, stadau, cynnal |
| **Staff** | 241 | 283 |

**NODIADAU: *Gwahaniaethau oherwydd meini prawf gwahanol ar gyfer casglu gwybodaeth. AC = Adnau Cyfreithiol**

**STRWYTHURAU A GRADDFEYDD TÂL CYMHAROL**

**DS cyfredol onibai y nodir yn wahanol**

| | **Llyfrgell Genedlaethol Cymru.**<br><br>**Fel yn Awst 2000** | **Llyfrgell Gen.**<br><br>**yr Alban** | **Prifysgol Caergrawnt** | **Llyfrgell Bodleian** |
|---|---|---|---|---|
| **Strwythur cyflog** | 7 band cyflog:<br>• Dim pwyntiau cynyddol oddifewn i'r bandiau<br>• Rhychwant eang iawn oddifewn i bob band<br>• Gorgyffwrdd sylweddol ac anghysonderau | 10 band cyflog<br><br>Dim dilyniant awtomatig<br><br>Cynnudd yn seiliedig ar berfformiad | | 5 band llydan:<br>• Ategol<br>• Clerigol a llyfrgell<br>• Technegol<br>• Ymchwil<br>• Academaidd (yn cynnwys lefel y Cyfarwyddwr)<br><br>Tua 6 gradd oodifewn i bob band, gyda 2-6/7 pwynt cynyddol. Peth gorgyffwrdd oddifewn i'r bandiau a'r graddau |
| **Cynorthwy-ydd Llyfrgell, heb brofiad blaenorol** | £10,166 + cynnydd blynyddol cyfyngedig am Berfformiad. % cynydd ychydig uwch na chwyddiant | *£10,241 - £14,658. Band 3. Cyflogi'n anodd ar y gwaelod | £12,543 -<br><br>£14,535 | Cyflog cychwynnol o £12,5000 + pwyntiau cynnydd |
| **Llyfrgellydd** | £15,000 | *£15,068 - £22,909 band 5 | | £15,000 - £16,000 |
| **Cyfarwyddwr** | Isafswm o £33,475 | £36,900 - £51,000 band 9 | | £30,000 - £35,000 |
| **Prif Weithredwr** | | tua £75,000 Mawrth 2002 | | |

*Mae bandiau cyflog yr Alban yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd

**ATODIAD 2**

**Llythyrau a Holiadurion a ddefnyddiwyd yn yr Ymarfer Ymgynghorol**

**27 Chwefror 2002**

**Annwyl**

**AROLWG PUM-MLYNYDDOL LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU**

Rydym yn ysgrifennu atoch ynglþn â'r cyhoeddiad diweddar o Arolwg Pum-mlynyddol o'r Llyfrgell Genedlaethol gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedol, Edwina Hart a'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg, Jenny Randerson. Mae'r cyhoeddiad hefyd yn rhoi gwybod am benodiad Ymgynghorwyr Rheoli GCL i gynnal yr arolwg ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r arolwg yn rhan o raglen o adolygiadau pum-mlynyddol o wahanol gyrff a gweithgareddau oddifewn i'r Cynulliad.

Byddem yn ddiolochgar am eich syniadau a'ch sylwadau (a rhai unrhyw unigolyn neu gorff arall sy'n dymuno ymateb i'r gwahoddiad yma i wneud sylwadau) am yr arolwg hwn erbyn 24 Ebrill 2002.

Termau Cyfeirio ar gyfer yr arolwg

Bydd dwy ran i'r arolwg:

Ø Yr Adolygiad Strategol

Ø Yr Adolygiad Llywodraeth Corfforaethol

Bydd yr Adolygiad Strategol yn ystyried:

Ø A yw’r angen am weithredu’r swyddogaethau yn dal i fodoli ac am ba hyd

Ø Ai’r Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw’r ffordd orau i gyflenwi’r swyddogaethau neu a oes dewis gwell;

Ø A yw Llyfrgell Genedlaethol Cymru’n gweithio’n effeithiol ar lefel strategaeth/ gwasanaethau, beth yw ei chyfraniad at amcanion ehangach egwyddorion a gwerthoedd y Cynulliad (er enghraifft partneriaeth, cyfleon cyfartal, gweithredu ar anfantais cymdeithasol a hyrwyddo datblygiad cynnaladwy);

Ø Sut y gellid gwella effeithiolrwydd strategol.

Bydd yr Adolygiad Llywodraeth Corfforaethol yn asesu:

Ø A yw Llyfrgell Genedlaethol Cymru’n rheoli ei chyllid yn effeithiol ac yn unol â gofynion cysondeb, priodoldeb a gwerth am arian.

Ø Pa gynnydd sydd wedi ei wneud mewn gwella effeithlonrwydd y gweithrediad, gan gynnwys y defnydd o TG, a chryfder ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol i wella effeithlonrwydd.

**Fel rhan o’r adolygiad mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi gofyn bod sylw penodol yn cael ei roi i orgyffwrdd potensial gyda chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru.**

Cyoeddir yr holiadur amgaeedig fel rhan o’r Adolygiad Strategol. Mae hyn yn cynnig cyfle i sylwadau gael eu cyflwyno gan fudd-ddeiliaid yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Mae’r broses arolygu’n dryloyw ac yn agored i bawb sydd â diddordeb yng nghefndir addysgol a chelfyddydol Cymru. Fe fydd adroddiad yr arolwg ar gael i’r cyhoedd; ac fe gaiff ei drafod yn ei ffurf drafft gan y Pwyllgor Celfyddyd cyn i Gabinet y Cynulliad ddod i benderfyniad ynglyn â’i gasgliadau a’i argymhellion.

Nid yw gweithredu’r arolwg yma yn cymryd unrhyw beth yn ganiataol ynglyn â’r casgliadau y daw’r arolwg iddyn nhw, nid yw chwaith yn awgrymu unrhyw feirniadaeth o Lyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae Gweinidogion y Cynulliad wedi ei gwneud yn glir ei bod yn rhaid i opsiynau ar gyfer y dyfodol gael eu harchwilio ar sail teilyngdod, ac maent yn awyddus iawn i wneud barn ar gael ar sail eang mewn perthynas â’r ffyrdd y gall y Llyfrgell Genedlaethol gyfrannu’n fwyaf effeithiol i gyflawni’r amcanion osodir gan y cynulliad, yn enwedig ym meysydd addysg a chelfyddyd.

**Ymgynghoriad**

Fel arolygwyr, rydym yn cyhoeddi’r llythyr hwn fel gwahoddiad i amrywiaeth eang o gyrff ac unigolion sydd yn gweithio mewn meysydd perthnasol i amgylchedd addysgol a chelfyddydol Cymru. Mae copi o’r llythyr hwn a’r holiadur ymgynghorol ar gael ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Croeso i chi rannu’r gwahoddiad yma i wneud sylwadau gyda unrhyw gyrff neu unigolion eraill oddifewn a thu hwnt i Gymru, neu i roi gwybod i mi am eraill â diddordeb posib. Mae’r llythyr hwn a’r papur ymgynghori hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol (www.cymru.gov.uk) ac ar wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

**Ymatebion**

Mae nifer o faterion, a ddisgrifir yn y papur ymgynghori amgaeedig, lle byddem yn croesawu’ch sylwadau. Os hoffech gyfrannu, a wnewch chianfon un copi o’ch ymateb, gyda "Papur Ymgynghori ar LGC" fel teitl, i’m cyrraedd i erbyn ebrill 24 2002, i:

Robin Moulson Robin Moulson

GCL Management Consultants Ymgynghorwyr RheoliGCL

Sophia House Ty Sophia

28 Cathedral Road 28 Ffordd y Gadeirlan

Cardiff Caerdydd

CF11 9LJ CF11 9LJ

Os gwelwch yn dda dechreuwch eich cyfraniad gydag arwydd clir pa sefydliad (os o gwbwl) rydych yn ei gynrychioli. Dylid cyfeirio unrhyw gwestiwn yngln â'r ymarferiad ymgynghorol yma gael ei gyfeirio ataf i trwy ffôn ar 02920 377237, neu drwy e-bost at paula.reilly@gclconsultancy.co.uk

Gall canlyniadau'r ymgynghoriad yma gael eu cyhoeddi, felly rydym yn bwriadu trin pob ymateb fel un cyhoeddus, oni bai fod ymatebwyr yn nodi'n glir eu bod yn dymuno i'w sylwadau gael eu trin yn gyfrinachol. Efallai y byddem yn dal i gynnwys y fath atebion mewn crynodebau o ymatebion, oni bai y gellid defnyddio'r fath grynodebau i adnabod ymatebwyr oedd yn dymuno i'w sylwadau fod yn gyfrinachol.

Byddwn yn ddiolchgar iawn petaech yn medru ateb cynifer o gwestiynau â phosib sydd yn berthnasol i chi yn y papur ymgynghori; a hefyd nodi'ch blaenoriaethau, eich pryderon a'ch syniadau am rôl Llyfrgell Genedlaethol Cymru wrth geisio amcanion addysgol a chelfyddydol yng Nghymru a'i effeithlonrwydd wrth gwrdd â'r amcanion yma. Edrychaf ymlaen at dderbyn eich sylwadau.

Yr eiddoch yn gywir

**Robin Moulson**

Cyfarwyddwr

**Arolwg pum-mlynyddol o Lyfrgell Genedlaethol Cymru.**

**Dogfen Ymgynghorol**

**Termau Cyfeirio ar gyfer yr arolwg**

Bydd dwy ran i'r arolwg:

Ø Yr Adolygiad Strategol

Ø Yr Adolygiad Llywodraeth Corfforaethol

**Bydd yr Adolygiad Strategol yn ystyried:**

Ø A yw'r angen am weithredu'r swyddogaethau yn dal i fodoli ac am ba hyd

Ø Ai'r Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw'r ffordd orau i gyflenwi'r swyddogaethau neu a oes dewis gwell;

Ø A yw Llyfrgell Genedlaethol Cymru'n gweithio'n effeithiol ar lefel strategol/ gwasanaethau, beth yw ei chyfraniad at amcanion ehangach egwyddorion a gwerthoedd y Cynulliad (er enghraifft partneriaeth, cyfleon cyfartal, gweithredu ar anfantais cymdeithasol a hyrwyddo datblygiad cynnaladwy);

Ø Sut y gellid gwella effeithiolrwydd strategol.

Bydd yr Adolygiad Llywodraeth Corfforaethol yn asesu:

Ø A yw Llyfrgell Genedlaethol Cymru'n rheoli ei chyllid yn effeithiol ac yn unol â gofynion cysondeb, priodoldeb a gwerth am arian.

Ø Pa gynnydd sydd wedi ei wneud ym maes gwella effeithlonrwydd y gweithrediad, gan gynnwys y defnydd o TG, a chryfder ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol i wella effeithlonrwydd.

Fel rhan o'r adolygiad mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi gofyn bod sylw penodol yn cael ei roi i orgyffwrdd potensial gyda chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru.

Cyhoeddir yr holiadur canlynol fel rhan o'r Adolygiad Strategol. Mae hyn yn cynnig cyfle i sylwadau gael eu cyflwyno gan fudd-ddeiliaid yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

**1. Materion yn ymwneud â Chyd-destun Strategol ar gyfer**

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru**

1.1 Yn yr adran hon rydym yn edrych ar y modd Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru'n cefnogi cyraeddiadau addysgol a chelfyddydol Cymru a'r ffyrdd y gall y rhai sydd â diddordeb yng Nghymru ddylanwadu ar ei strategaethau a'i datblygiadau.

C1. A oes gennych farn glir, wedi ei seilio ar ddeunydd cyhoeddus a/ neu gysylltiadau, am brif strategaethau'r Llyfrgell Genedlaethol wrth ddilyn amcanion ar gyfer Cymru? Oes/ Nac oes

C2. Os oes, ydych chi'n credu fod y strategaethau yn gefnogol o'ch corff?

C3. Ydych chi'n teimlo y gallwch ddylanwadu ar strategaethau a datblygiadau mewn ffyrdd fyddai'n rhoi mwy o gefnogaeth i chi?

C4. Os ydych, a wnewch chi ddisgrifio sut y byddech yn ymarfer eich dylanwad :-

C5. Ym mha ffyrdd rydych yn teimlo y gallai’ch cysylltiadau / ffyrdd o weithio presennol gyda’r Llyfrgell Genedlaethol gael eu gwella?

C6. A oes gennych ddealltwrIaeth glir o strwythur y Llyfrgell Genedlaethol, gan gynnwys y Cyngor a Llys y Llywodraethwyr? Oes/ Nac oes

C7. Os gwelwch yn dda a wnewch chi amlinellu isod yr hyn rydych yn eu hystyried i fod yn gryfderau a gwendidau’r strwythur llywodraethol presennol fel mecanwaith i sicrhau ymateb effeithiol i anghenion addysgol a chelfyddydol yng Nghymru, yn ogystal â rheolaeth sicr o weithrediad y Llyfrgell:

C8. A wnewch chi egluro’ch barn gan ddefnyddio enghreifftiau o’ch profiad eich hun neu brofiad eich corff.

**2. Swyddogaethau Craidd**

2.1 Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cyflawni’r swyddogaethau craidd canlynol yn unol â’i Siarter Frenhinol a’i Gynllun Corfforaethol presennol:-

Ø Casglu - i gasglu defnyddiau trwy adneuon cyfreithiol, prynu, trwy roddion, becweddau, cyfnewid ac adnau yn unol â pholisïau datblygiad casglu a gytunwyd

Ø Diogelu - i ddiogelu a gwarchod yr holl ddefnyddiau oddi fewn i’r casgliadau

Ø Rhoi mynediad a gwybodaeth - i’r adeilad, ei gasgliadau a’i wasanaethau, yn lleol ac o bell a gwybodaeth digonol amdanynt

Ø Hyrwyddo a dehongli - creu ymwybyddiaeth gryfach a gwybodaeth ehangach am yr hyn sydd gan y Llyfrgell Genedlaethol i'w gynnig

Ø Cydweithio proffesiynol - i gydweithio a, lle'n addas, rhoi arweiniad i gyrff proffesiynol perthnasol a rhai eraill megis llyfrgelloedd, archifau, amgueddfeydd ac orielau, a chyrff gwybodaeth eraill

2.2 Ym 1999, ymgymerodd y Llyfrgell Genedlaethol ag ymgynghoriad "Dewis y Dyfodol" . Mae'r papur ymgynghorol a chrynodeb o'r casgliadau i'w cael ar wefan y Llyfrgell Genedlaethol fel a ganlyn:

**Iaith Papur Ymgynghorol**

Cymraeg http://www.llgc.org.uk/adrodd/adrodd_c_papymg.pdf

Saesnaeg http://www.llgc.org.uk/adrodd/adrodd_s_papymg.pdf

**Crynodeb o'r Casgliadau**

Cymraeg http://www.llgc.org.uk/adrodd/adrodd_c_dewis.pdf

Saesneg http://www.llgc.org.uk/adrodd/adrodd_s_dewis.pdf

2.3 Ers yr ymgynghoriad gwreiddiol mae'r Llyfrgell Genedlaethol wedi gwneud nifer o ddatblygiadau sylweddol. Mae'r prosiect celfyddydol "Casglu'r Tlysau" yn tanlinellu rôl y Llyfrgell mewn gweithredu fel gwasanaeth cyflenwi ymhell y tu allan i gylch gwaith ei gasgliadau ei hun ac mae'r prosiect NEWSPLAN yn enghraifft o gydweithio pellach gydag archifau lleol. Mae ad-drefnu ar hyd llinellau'r Casgliadau a'r Gwasanaethau yn fan cychwyn i roi rhagor o bwyslais arwahan i'r Gwasanaethau mewn datblygiadau yn y dyfodol. Mae'r cwestiynau canlynol yn rhoi sylw i'r amgylchedd sydd yn newid:

C9. Ydych chi'n ystyried fod y swyddogaethau craidd yn dal yn ddilys neu o gymorth? Ydw / Nac ydw

C10. Heb ystyried eich ateb i Gwestiwn 9, pa swyddogaethau craidd fyddech chi'n hoffi eu gweld yn cael eu hychwanegu at, neu eu dileu oddi ar, y rhestr roddwyd uchod?

C11. A ydych chi'n ymwybodol o gwbwl o'r pwyslais mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn ei roi bob un o'r gwasanaethau craidd yn nhermau'r pwyslais roddir oddi fewn i'r Llyfrgell Genedlaethol neu'r dyraniad cyllidebol?

Ydw/ Nac Ydw

C12. Sut rydych chi’n gwerthuso cynnydd y Llyfrgell Genedlaethol wrth iddi ganlyn datblygiadau ym mhob un o’i meysydd gwasanaethau craidd ers iddynt gael eu sefydlu yn 1999? A wnewch chi nodi un ar gyfer pob maes craidd.

Ø Casglu Da/Rhesymol/Gwael/ Ddim yn Gwybod

Ø Diogelu Da/Rhesymol/Gwael/ Ddim yn Gwybod

Ø Darparu Mynedfeydd Da/Rhesymol/Gwael/ Ddim yn Gwybod

Ø Hyrwyddo a Dehongli Da/Rhesymol/Gwael/ Ddim yn Gwybod

Ø Cydweithio Proffesiynol Da/Rhesymol/Gwael/ Ddim yn Gwybod

C13. O’ch persbectif personol, neu un eich corff, a fyddai’ch dibenion chi’n cael eu hateb yn well trwy roi mwy neu lai o bwyslais ar bob un o’r swyddogaethau craidd? A wnewch chi nodi un ar gyfer pob swyddogaeth graidd?

Ø Casglu Mwy/ Fel nawr/ Llai

Ø Diogelu Mwy/ Fel nawr/ Llai

Ø Darparu Mynedfeydd Mwy/ Fel nawr/ Llai

Ø Hyrwyddo a Dehongli Mwy/ Fel nawr/ Llai

Ø Cydweithio Proffesiynol Mwy/ Fel nawr/ Llai

C14. Nodwch enghreifftiau o’ch profiad eich hun neu brofiad eich corff er mwyn esbonio’ch safbwynt:

**3. Cyfeiriadau Newydd**

3.1 Nododd ymgynghoriad blaenorol hefyd nifer o gyfeiriadau newydd a fyddai, o bosib, yn ymestyn rhychwant gwasanaethau a dylanwad Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Y cyfeiriadau newydd oedd:

Ø Annog pobl i ddefnyddio mwy o adeilad y llyfrgell

Ø Datblygu gwasanaeth gwell i addysg uwch

Ø Datblygu gwasanaeth i’r dysgwyr i gyd

Ø Digido i wella cyrchiadau o bell ("dod â’r Llyfrgell i’r byd")

Ø Adeiladu partneriaethau gydag eraill.

Ø Yn yr atebion fe dderbynion nhw gefnogaeth eang

3.2 Ers 1999 gwnaed nifer o fuddsoddiadau sylweddol sy’n ymestyn allan, rhai tebyg i’r Ganolfan Ymwelwyr yn Aberystwyth a dechrau’r prosiect "Casglu’r Tlysau". Mae’r cwestiynau canlynol wedi eu hanelu at gasglu’ch syniadau am ddatblygiad y gwasanaethau:

C15. O’r pum ardal ar gyfer datblygu a bwysleisiwyd yn "Dewis y Dyfodol" a wnewch chi roi’ch barn am y pwyslais rydych chi’n ei deimlo y dylid ei roi i bob ardal. A wnewch chi nodi un dewis ar gyfer pob ardal.

Ø Annog pobl i ddefnyddio mwy o adeilad y llyfrgell Uwch/ fel nawr/is

Ø Datblygu gwasanaeth gwell i addysg uwch Uwch/ fel nawr/is

Ø Datblygu gwasanaeth i’r dysgwyr i gyd Uwch/ fel nawr/is

Ø Digido i wella cyrchiadau o bell Uwch/ fel nawr/is

Ø Adeiladu partneriaethau gydag eraill Uwch/ fel nawr/is

C16. Os gwelwch yn dda, nodwch isod unrhyw wasanaethau ychwanegol yr hoffech i’r Llyfrgell Genedlaethol ei gynnig na sydd yn cael eu cynnwys yn y pum datblygiad a nodwyd ym mharagraff 3.1 a hefyd sydd ddim yn cael eu darparu fel rhan o’r gwasanaethau craidd:

C17. Os yw cost y datblygiadau yma i'w ariannu ar gost niwtral, beth yw'ch barn yngln â pha wasanaethau craidd, a nodwyd ym mharagraff 2.1 uchod, y gellid cyfyngu arnyn nhw i alluogi hyn i ddigwydd?

**4. Cymhellion, anghymhellion, gorgyffyrddion a chyllido**

4.1 Fe fydd llwyddiant Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn y dyfodol yn dibynnu'n bennaf ar gynnig gwasanaethau perthnasol a dod o hyd i'r cyllid i roi cymorth i'r gwasanaethau yma. Fe fydd hyn, yn ei dro, yn golygu darparu cymhellion a dileu anghymhellion i ddefnyddwyr potensial - academaidd, addysgol a masnachol. Efallai y bydd hefyd angen parhau i chwilio am y rhychwant ehangaf o opsiynau cyllido. Mae'r cwestiynau yn yr adran hon yn delio â'ch agweddau ar y materion yma:

C18. Ydych chi'n ystyried bod y Llyfrgell Genedlaethol yn effeithiol ac yn effeithlon yn nhermau'r gwasanaethau rydych chi'n eu defnyddio fel ffynonellau ar hyn o bryd?

Ydw / Nac Ydw

C19. Os Nad ydych, pa agweddau o'r gwasanaeth rydych chi'n eu hystyried sydd angen eu gwella?

C20. Pa newidiadau pellach fyddai'n rhoi'r cymhelliad i chi wneud defnydd ehangach o'r gwasanaethau rydych chi'n eu defnyddio ar hyn o bryd, neu i ddefnyddio rhychwant ehangach o wasanaethau?

C21. Beth yw'r anghymhellion pennaf i chi neu i'ch corff i ddefnyddio gwasanaethau'r Llyfrgell Genedlaethol?

C22. Ydych chi'n ystyried fod yna swyddogaethau a gwasanaethau gaiff eu cyflawni gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru sydd yn gorgyffwrdd yn sylweddol â chyrff cyhoeddus Cymreig eraill? Ydw / Nac Ydw / Ddim yn Gwybod.

C23. Os ydych chi, a wnewch chi ddisgrifio beth ydych chi'n ystyried yw'r rhain:

C24. Arwahan i ariannu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, pa gyfleon ymarferol ydych chi’n eu hystyried a allai fod ar gael i gyflenwi cyllido ychwanegol i gefnogi datblygiadau dymunol?

C25. Pa wasanaethau ychwanegol fyddech chi’n ystyried talu amdanyn nhw, a chymryd fod y prisiau’n rhesymol, petaen nhw’n cael eu cynnig gan y Llyfrgell Genedlaethol ?

**5. Materion Eraill**

5.1 Fe fyddai gennym ddiddordeb yn eich barn am unrhyw faterion eraill rydych chi’n eu hystyried yn berthnasol i Adolygiad Pum -Mlynyddol o Lyfrgell Genedlaethol Cymru sydd ddim yn cael eu trin yn y cwestiynau a ofynwyd uchod.

C26. At ba faterion eraill y byddech chi’n hoffi tynnu sylw Pwyllgor Llywio’r arolwg a’r rhai sy’n gweithredu’r arolwg manwl? Rhestrwch nhw isod os gwelwch yn dda:

Diolch am eich sylwadau

**ATODIAD 3**

**Cymhariaeth Ehangach gyda Llyfrgelloedd Eraill**

| | **CYMRU**<br><br>**Llyfrgell Gen. Cymru** | **YR ALBAN**<br><br>**Llyfrgell Gen.Yr Alban** | **DE IWERDDON Llyfrgell Gen. yr Iwerddon** | **Y D.U.**<br><br>**Y Llyfrgell Gen.** | **CANADA**<br><br>**Llyfrgell Gen. Canada** | **YR ISEL-DIROEDD Llyfrgell Gen. Yr Iseldiroedd** | **DENMARC**<br><br>**Y Llyfrgell Frenhinol** | **SWEDEN** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Poblogaeth** | 2.9m | 5.1m | 3.6m | 59m | 31m | 15.9m | 5.3m | 8.8m |
| **Lleoliad/ Llety** | Aberystwyth | Caeredin | *Dulun, y prif safleoedd & lleoliadau wedi eu sybsidieddio<br><br>*Archif lluniau arwahan<br><br>*1 adeilad yn cael ei drawsnewid<br><br>* Storfa oddi ar y safle | Llundain - St Pancras & Colindale/ Boston Spa | Ottawa | Yr Hâg<br><br>25% o'r arwynebedd llawr mewn sefydliadau eraill. Lleoliadau yn Amager, Fiostraede a Slotsholmer | Copenhagen 3 safle + 50 llyfrgell Prifysgol Copenhagen | Stockholm |

| | **CYMRU** | **YR ALBAN** | **DE IWERDDON** | **Y D.U.** | **CANADA** | **YR ISEL-DIROEDD** | **DENMARC** | **SWEDEN** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyllid/ Incwm** | £8.4m.: yn cynnwys: £6.6m o gostau gweithredu a £576k o grant prynu | £12.1m: yn cynnwys: £10.7m o gostau gweithredu a £1m o grant prynu | £12m yn cynnwys £5.2m o gostau gweithredu & £5m datblygu cyfalaf. D.S mae'n cynnwys cyfraniadau o gynllun credyd treth | £110m (yn cynnwys £21m yn allanol benthyciad-au llyfrau'n bennaf | $32m = £15m Incwm $160,000 = £75,000 | nlg 46m = £12m | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ateb-olrwydd** | Cynuliad Cymru, Llys y Llywodraeth-wyr, Y Cyngor | Corff Cyhoeddus anadrannol, gaiff gymorth grant gan Fwrdd Ymddiriedol-wyr Adran Addysg Gweithredol yr Alban | Cyngor o 12 ymddiriedolwr | Ysg'nydd Gwladol : Diwylliant, y Cyfryngau & Chwaraeon Bwrdd o11 aelod + chymorth gan Gyngor Ymgyng'ol yr AB & 8 Pwyllgor Ymgyng-horol. | Llyfrgellydd Cen'laethol yn atebol yn uniongyrch-ol i Weinidog Treftad'th Canada | Anniynb-ynnol ers 1993, wedi ei hariannu gan Weinydd'th Addysg, Diwylliant a Gwyddon-iaeth | Caiff ei redeg gan Fwrdd o dan Y Gweinidog Diwylliant | Bwrdd o 10 + 2 gynrychio-lydd staff |

| | **CYMRU** | **YR ALBAN** | **DE IWERDDON** | **Y D.U.** | **CANADA** | **YR ISEL-DIROEDD** | **DENMARC** | **SWEDEN** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Daliadau** | 4.5m o lyfrau | 7-8m o lyfrau | 1m o lyfrau | 80m neu 150m o eitemau. Gwyb'th gwahanol ar y wefan/ adroddiad blynyddol | 18m o eitemau | 3.3m o eitemau | 4.6m o lyfrau; 10.6m o ddogfennau graffeg; 900,000 eraill | |
| **Oriau agor** | 50 awr yr wythnos yn cynnwys Sad tan 5 pm | 58 awr yr wythnos yn cynnwys Sad tan 1 pm | 50 awr yr wythnos yn cynnwys Sad tan 1 pm | 48 awr yr wythnos Sad tan 4.30 pm | 112 awr yr wyth's prif yst. ddarll'n yn c'nnwys Sad /Sul. Cyfeiriadol & chas'dau arb'ig tan 5pm LL-G | 40 awr yr wythnos Sad tan 1 pm | 49 awr yr wythnos Sad tan 2 pm. Darllen ymchwil 66 awr, Sadwrn tan 7 pm | 63 awr yr wythnos yn cynnwys 10-5 Sadwrn |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Defnydd (blynyddol)** | *76,445 rhifyn *1,397 holiadau drwy'r post *183,000 o ymweliadau blynyddol â'r we | *cyfanswm 542,000 *350,000ymweliad â'r we *293,000 rhifyn | *120,000 ymweliad yn 2000 *50,000 ymweliad â'r we mewn 3 mis, 55% o'r UDA | 21m ymweliad â'r we | *24,000 cais; *1.6m cofnod i'r bas-data *152,000 benthyciad rhwng llyfr'oedd | *62,000 ymweliad *77,000 holi am wyb'th *163,000 o geis'dau am fenthyg a gweld gweld *1.4 ymweliad â'r we | | |

| | CYMRU | YR ALBAN | DE IWERDDON | Y D.U. | CANADA | YR ISEL-DIROEDD | DENMARC | SWEDEN |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Strwythur trefniadol** | **4 adran o dan y Llyfrgellydd:** 1. Gwas'thau Casglu<br>2. Gwas'thau cyhoeddus<br>1. Gwas'thau Corfforathol<br>2. Swyddfa'r Llyfrgellydd<br>1. | **5 adran o dan y Llyfrgellydd** 1 Gwas'thau cyhoeddus<br>2 Casgliadau arbennig<br>3 Casgliadau cyffredinol;<br>4 Gwas'thau cyfrifiadurol, adnoddau dysgu yn yr Alban<br>5 Gweinydd'th: personnel, cyllid, stadau a chadw | | **5 adran o dan CE:**<br>1 Ysgol'aeth a Chasgliadau<br>2 Cyllid as adnoddau corff'aethol<br>3 Marchnata Strategol a Chyfathrebu<br>4 Gweithred-iadau a gwas'thau<br>5e-strategaeth a Rhaglenni | **3 adran o dan y Llyfr'llydd** 1 Casgl'au deunydd o Canada a gwas'thau mynediad<br>2 Rhwyd'thio Llyfrgell<br>3 Trefn-iadaeth Corff'thol a changen **DS Mae gwas'thau TG wedi eu huno â'r Archif Gen.** | **3 Cyfarwydd-wr:** cyffredinol, dirprwy. TG a rheolaeth cyfleust-erau | **8 Rhaniad o dan y Llyfrgellydd**<br>1 lyfrgell Gened'ethol<br>2 Llyfrgell y Brifysgol<br>3 Gwas'thu cyhoeddus<br>4 Cadwraeth<br>5 Trefniad'th<br>6 TG<br>7 Prosisctau 8 Ymchwil a diwylliant | **6 Rhaniad o dan y Llyfr'llydd** 1. Trefn-iadaeth<br>2 Caglu, Datblygu a Dogfennau<br>3 Cadwraeth a Mynediad<br>4 Casg'dau Arbennig 5 Adran LIBRIS 6 Datblygu a Chyd-drefnu Cened'thol |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Staff** | 241 | 283 | 90 | 2,317 + 971 wedi eu hariannu’n allanol | 425 FTE | 254 FTE | | |
| **Agweddau dwy-ieithog** | | | | | Dim problemau recriwtio / cadw. Staffio angenrheid-iol rhaid cwrdd â gofynion iaith ar 1 o 4 lefel a nodwyd ar gyfer y swydd. Staffio diangheraid: cymwys ar gyfer hyfforddi iaith F/T, 2 flynedd i gwrdd ag anghenion y swydd. Bonws dwy-ieithrwydd o $800 (£374) y flwyddyn i’r holl staff sy’n cwrdd ag anghenion y swydd. | | | |

**NODIADAU**

1. **LIBRIS** = Gwasanaeth gwybodaeth y Llyfrgell
2. **Mae’r uchod i gyd yn llyfrgelloedd adnau cyfreithiol.**

## ATODIAD 4

**Cymariaethau o niferoedd aelodau’r Byrddau/ aelodau’r Cyngor / Ymddiriedolwyr**

| | |
|---|---|
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | 21 |
| Cerddorfa Symffoni Dinas Birmingham | 11 |
| Amgueddfa Victoria ac Albert | 13 |
| Yr Oriel Genedlaethol | 13 |

| | |
|---|---|
| Y gymdeithas Ffotograffaidd Frenhinol | 11 |
| Cwmni Sadler’s Wells | 15 |
| Y Llyfrgell Brydeinig | 11 |
| Y Ty Opera Cenedlaethol | 17 |
| Llyfrgell Genedlaethol yr Alban | 25* |

* Yn cynnwys 11 aelod yn rhinwedd eu swydd sy’n cyfarfod unwaith y flwyddyn. Mae eraill yn ffurfio pwyllgor sefydlog chwarterol.

| | |
|---|---|
| Amgueddfa y Rhyfel Ymerodrol | 22** |

** Yn cynnwys 7 Uchel Gomisiynydd llywodraethau’r Gymanwlad yn rhinwed eu swyddi

| | |
|---|---|
| Yr Oriel Porteadau Cenedlaethol | 15 |
| Cerddorfa Symffoni Llundain | 12 |
| Cwmni Ballet yr Alban | 12 |
| Academi Frenhinol y Celfyddydau | 14 |
| Amgueddfa Genedlaethol Gwyddoniaeth a Diwydiant | 14 |
| Amgueddfa Hanes Naturiol | 12 |

D.S. Mae nifer o’r cyrff uchod wedi eu cyfansoddi’n wahanol, fel elusennau’n bennaf neu fel Cyrff Cyhoeddus Anadrannol. Ym mhob achos mae’r nifer o bobl sy’n ffurfio corff llyodraethol materion y sefydliad wedi eu rhestru. Mae’r rhan fwyaf, er nid i gyd, yn dderbynwyr cyllido cyhoeddus sylweddol.

**ATODIAD 5**

## LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

## ADOLYGIAD PUM MLYNEDD - CYLCH GORCHWYL

### Cyflwyniad

Cynhelir adolygiad pum mlynedd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yng nghyd-destun y Canllawiau ar gyfer Adolygiadau Pum Mlynedd a gyhoeddwyd gan y Cynulliad. Mae'r Canllawiau yn nodi'r broses ar gyfer cynnal yr adolygiadau. Mae hyn yn cynnwys hunan-asesiad gan y corff noddedig, trafod ag Aelodau'r Cyngor ac uwch reolwyr, ceisio barn y prif gyfranddeiliaid gan gynnwys barn y staff a'r undebau llafur, partneriaid a chwsmeriaid.

Mae'r Cylch Gorchwyl yn nodi'r prif gwestiynau y bydd yn rhaid i'r Adolygiad fynd i'r afael â hwy. Nodir y materion sy'n gyffredin i bob adolygiad yn y Canllawiau, ond mae'r Cylch Gorchwyl hefyd yn nodi materion sy'n benodol i Lyfrgell Genedlaethol Cymru.

Canlyniad allweddol yr adolygiad hwn fydd un adroddiad, a fydd mewn tair rhan. Bydd rhan gyntaf yr adroddiad sy'n ymwneud â swyddogaethau yn cael ei hystyried yn ystod y cyfnod interim, a hefyd y materion sy'n codi ar gyfer gweddill yr adolygiad.

Cyd-destun yr adolygiad hwn fydd Cynllun Strategol y Cynulliad, Cynllun I Gymru 2001, a dogfennau strategol perthnasol y Cynulliad megis Creative Future: Cymru Greadigol. Bydd yr adolygiad hefyd yn dwyn i ystyriaeth yr Adolygiad llawn o Reolaeth Ariannol a Pherfformiad a gafodd ei gynnal gan y Swyddfa Gymreig yn 1993/94.

### Rhan 1 - Swyddogaethau

Yng ngoleuni gwrthrychau Siarter Llyfrgell Genedlaethol Cymru, amcanion y Cynulliad Cenedlaethol a modelau arfer da mewn mannau eraill, a oes angen holl swyddogaethau Llyfrgell Genedlaethol Cymru bellach, ac os felly, ai'r fframwaith trefniadol presennol yw'r ffordd fwyaf priodol o gyflawni'r swyddogaethau hynny?

- Pa fframwaith cyfreithiol sy'n rheoli Llyfrgell Genedlaethol Cymru?
- A oes angen holl swyddogaethau Llyfrgell Genedlaethol Cymru bellach?
- A oes angen i Gorff a Noddir gan y Cynulliad gyflawni'r swyddogaethau hyn - a fyddai ffyrdd eraill o gyflawni'r swyddogaethau yn debygol o fod yn fwy effeithiol?
- Ai un corff sydd orau i gyflawni'r swyddogaethau hyn? A oes angen rhannu'r swyddogaethau rhwng Llyfrgell Genedlaethol Cymru a chyrff cyhoeddus eraill sy'n darparu gwasanaethau tebyg yng Nghymru?

### Rhan 2 - Effeithiolrwydd Strategol

Yn amodol ar y darganfyddiadau yn yr Adroddiad Interim: a ddylid gwneud unrhyw welliannau i'r ffordd y cyflawnir swyddogaethau Llyfrgell Genedlaethol Cymru, o ystyried gwrthrychau ei Siarter, sut y cawsant eu hymgorffori yn nodau ac amcanion y Cynllun Corfforaethol, a gwerthoedd ac amcanion y Cynulliad Cenedlaethol. A oes modd gwella'r ffyrdd y mae'r berthynas rhyngddo â'r Cynulliad Cenedlaethol yn gweithio?

Dylai hyn ystyried unrhyw astudiaethau annibynnol, er enghraifft gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, a'r camau a gymerwyd yn dilyn yr Adolygiad o Reolaeth Ariannol a Pherfformiad yn 1993/94.

- Beth fu prif lwyddiannau strategol Llyfrgell Genedlaethol Cymru ers 1993/94, i ba raddau y mae wedi bodloni ei hamcanion, sut y mae'r Llyfrgell Genedlaethol wedi perfformio yn erbyn ei thargedau, sut y mae ei pherfformiad yn cymharu â pherfformiad cyrff eraill tebyg, a oes angen mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â pherfformiad?
- Pa mor effeithiol yw'r berthynas strategol rhwng Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys canllawiau strategol y Cynulliad a threfniadau'r Llyfrgell Genedlaethol ar gyfer ymateb i amcanion strategol y Cynulliad a'r gwerthoedd a'r themâu sy'n arwain ei waith (gan gynnwys cyfle cyfartal, mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol a datblygu cynaladwy)? Sut y gellid eu gwella?
- Pa mor effeithiol yw dulliau cynllunio corfforaethol Llyfrgell Genedlaethol Cymru o safbwynt pennu cyfeiriad strategol clir a phennu targedau a dyrannu adnoddau yn unol â'r amcanion a'r blaenoriaethau?
- A yw proses cynllunio corfforaethol Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn dangos ei bod yn mabwysiadu dull integredig o weithredu wrth fynd ati i gyflawni ei swyddogaethau?
- A oes cyd-ddealltwriaeth effeithiol o ba rôl y mae aelodau’r Cyngor a’r uwch-reolwyr yn ei chwarae wrth bennu amcanion corfforaethol a monitro’r ffordd y cânt eu gweithredu? A yw'r prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau gan yr aelodau yn glir ac yn effeithlon a'r gwahaniaeth rhwng yr hyn sydd ar gyfer y Cyngor a'r rheolwyr yn glir?
- A yw Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn ymateb yn ddigonol i’w phartneriaid a’i chwsmeriaid, a yw'n deall natur ei pherthynas â hwy, a yw’n ennyn eu hyder fel corff y gallant wneud busnes ag ef, a oes ffyrdd o gryfhau’r berthynas?
- A yw’r trefniadau adrodd rhwng Llyfrgell Genedlaethol Cymru a’r Cynulliad Cenedlaethol yn ddigonol, a oes angen mwy o ryddid a hyblygrwydd ar y Llyfrgell Genedlaethol?

**Rhan 3 - Rheolaeth Gorfforaethol**

A yw trefniadau rheoli Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn dal i fod yn addas? A yw Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn rheoli ei chyllid yn effeithiol ac yn unol â gofynion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian? Pa gamau y mae'r Llyfrgell Genedlaethol wedi eu cymryd i wella ei effeithlonrwydd gweithredol? Dylai hyn roi sylw i dystiolaeth o fframwaith rheoli presennol y Llyfrgell Genedlaethol, fel y'i nodir yn Atodiad 2 o'r Canllawiau.

- A yw trefniadau rheoli presennol Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn dal i fod yn addas? A yw'r Llyfrgell yn ddigon atebol i'r cyhoedd o ran y gwaith y mae'n ei wneud?
- A yw’r trefniadau cyllid a rheoli rhwng Llyfrgell Genedlaethol Cymru a’r Cynulliad Cenedlaethol yn bodloni gofynion sefydledig?
- O edrych ar yr adroddiadau archwilio mewnol ac allanol, a ellir bod yn ffyddiog bod y Llyfrgell yn rheoli ei chyllid yn unol â disgwyliadau’r Cynulliad ar gyfer cyrff cyhoeddus? A yw Pwyllgor Archwilio mewnol y Llyfrgell Genedlaethol yn gweithio'n effeithiol?
- A yw’r Llyfrgell Genedlaethol yn rheoli ei chyllid a’i hasedion yn effeithiol, ac a yw'n mynd ar drywydd materion gwerth am arian, gan gynnwys gwerthuso polisi, gydag arddeliad?
- A yw’r modd y mae’r Llyfrgell Genedlaethol yn cynnal ei busnes yn bodloni'r safonau a ddisgwylir gan gyrff cyhoeddus mewn perthynas ag arferion caffael, bod yn agored a delio â chwynion?
- A yw costau rhedeg a lefelau staffio’r Llyfrgell Genedlaethol yn cael eu rheoli a’u harchwilio? A fyddai’n fuddiol eu cymharu â chostau gweithredol cyrff cyffelyb?
- A oes gan y Llyfrgell Genedlaethol drefniadau da ar gyfer monitro ansawdd ac effeithlonrwydd y modd y mae’n cyflwyno ei gwasanaethau?
- A yw’r Llyfrgell Genedlaethol wedi profi ei bod yn gallu gwella ei heffeithlonrwydd a bod ganddi gynlluniau pendant ar gyfer gwneud hynny?